



Canllaw i'r Cynllun
Graðdio Seren

**HOSTELI,
TAI BYNCIAU,
LLETY GRWPIAU A
GWEITHGAREDDAU**

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad cyffredinol

1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Safonau Cyffredinol ar draws Prydain

1.1.2 Y Gofynion

1.1.3 Eithriadau

1.1.4 Sut mae'r system asesu yn gweithio?
Naws am Le
Bwyd a Diod

1.2 Is-gategoriâu/Dynodwyr

1.3 Cynaliadwyedd a Hygyrchedd

2.0 Gofynion Mynediad Sylfaenol

2.1 Rhwymedigaethau Statudol

2.2 Safonau Cyffredinol

2.3 Ystafelloedd Gwely

2.4 Ceginau

2.5 Cyfleusterau Ystafelloedd Ymolchi, Toiled a Chawod

2.6 Gofynion Mynediad Sylfaenol ar gyfer Llety Grwpiau

3.0 Nodiadau Cyfarwyddyd

3.1 Y Tu Allan

3.3.1 Edrychiad Adeiladau

3.3.2 Tiroedd, Gerddi a Pharcio

3.3.3 Yr Amgylchedd

3.2 Lletygarwch a Gwasanaeth

3.2.1 Lletygarwch

3.2.2 Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd

3.2.3 Cyffyrddiadau Personol a Gwybodaeth
i Ymwelwyr

3.3 Glendid

3.4 Ansawdd Bwyd a Gwasanaeth

3.4.1 Ansawdd Bwyd – Brechwast

3.4.2 Ansawdd Bwyd – Cinio Gyda'r Nos

3.4.3 Gwasanaeth Prydau Bwyd

3.5 Ardaloedd Cyhoeddus (yn cynnwys yr holl risiau, pen grisiau, coridorau, ardaloedd bwyta a thai bwyta)

3.5.1 Addurno

3.5.2 Dodrefn, Celfi a Gosodiadau

3.5.3 Lloriau

3.5.4 Goleuadau a Gwresogi

3.5.5 Lle, Cyfforddusrwydd a Defnydd Rhwydd

3.6 Ystafelloedd gwely

- 3.6.1 Addurno
- 3.6.2 Dodrefn, Celfi a Gosodiadau
- 3.6.3 Lloriau
- 3.6.4 Goleuadau a Gwresogi
- 3.6.5 Gwelyau a Dillad Gwelyau
- 3.6.6 Lle, Cyfforddusrwydd a Defnydd Rhwydd

3.7 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau

- 3.7.1 Addurno
- 3.7.2 Cyfleusterau Glanweithiol a Gosodiadau
- 3.7.3 Lloriau
- 3.7.4 Goleuo, Gwresogi ac Awyru
- 3.7.5 Lle, Cyfforddusrwydd a Defnydd Rhwydd

3.8 Cegin Hunan-Ddarpar

- 3.8.1 Décor a Lloriau
- 3.8.2 Goleuo, Gwresogi ac Awyru
- 3.8.3 Celfi a Gosodiadau
- 3.8.4 Poptai ac Offer Trydanol
- 3.8.5 Cegin a Chyfarpar Bwyta
- 3.8.6 Lle, Cyfforddusrwydd a Defnydd Rhwydd

3.9 Cyfleusterau Eraill

- 3.9.1 Ystafelloedd Golchi a Sychu Dillad
- 3.9.2 Cyfleusterau Hamdden / Ychwanegol

4.0 Cod Ymddygiad

5.0 Amodau Cyfranogiad

6.0 Newid Perchnogaeth

7.0 Arwyddion

8.0 Beth i'w Wneud os Ydych yn Anghytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd

1.0 Cyflwyniad Cyffredinol

1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Safonau Cyffredinol ar draws Prydain

Yn dilyn adolygiad ansawdd eang oedd yn cynnwys yr holl bartneriaid safonau cyffredin, mae set newydd o feini prawf wedi eu datblygu.

Bydd Croeso Cymru nawr yn defnyddio'r gofynion safonau cyffredinol newydd yma er mwyn pennu Gradd Sêr ar gyfer eich sefydliad.

1.1.2 Y Gofynion

Rydym wedi seilio gofynion y graddau sêr ar safonau presennol yr holl sefydliadau. Rydym hefyd wedi ymgynghori â'r diwydiant lletygarwch. Mae'r adborth yr ydym wedi ei dderbyn gan y diwydiant yn dangos cefnogaeth gref i safonau ansawdd cyffredinol ar gyfer llety â gwasanaeth drwy'r gwledydd ble rydym yn gweithredu'r cynlluniau. Ein nod mewn perthynas â'r safon ansawdd cyffredinol diwygiedig yma yw gweithio'n barhaus â'r diwydiant er mwyn ymdrechu gyda'n gilydd i godi safonau ansawdd yn unol â disgwyliadau'r cwsmeriaid sy'n esblygu'n barhaus.

1.1.3 Eithriadau

Efallai y byddir yn caniatáu eithriadau mewn perthynas â rhai gofynion unigol penodol y safonau ansawdd, cyn belled â bod yr holl ofynion a'r lefelau ansawdd eraill ar gyfer y radd honno yn cael eu bodloni neu y rhagorir arnynt. Bydd yr hyblygrwydd hwnnw yn cael ei bennu fesul achos. Bydd unrhyw eithriadau yn golygu y bydd angen cynnydd cymesur mewn ansawdd mewn agweddau eraill er mwyn digolledu am yr elfen y ceisir eithrio mewn perthynas â hi.

1.1.4 Sut mae'r system asesu yn gweithio?

Yn gryno, mae yna dair elfen i'r broses.

Cam 1 – Mae Ymgynghorydd Ansawdd (QA) Croeso Cymru yn rhoi sgôr ansawdd i'r busnes cyfan.

Cam 2 – Yna mae'r QA yn gwirio bod elfennau penodol o'r busnes yn bodloni'r hyn a elwir yn 'Gymwysyddion Adrannol' o ran ansawdd.

Cam 3 – Yn olaf, mae'r QA yn gwirio bod gofynion o ran cyfleusterau a gwasanaethau, sy'n briodol i'r radd sêr, yn bodoli ac ar gael.

Cam 1

Mae'r ymweliad yn dechrau wrth i'r Ymgynghorydd Ansawdd gynnal asesiad gwrthrychol, ansoddol o bob agwedd o'ch busnes, o gyflwr yr adeilad ei hun, y celfi, dodrefn ayyb i'r gwasanaethau a gynigir i'r gwsteion. Yn ei hanfod, rhoddir sgôr i bob elfen a asesir, a mae'r sgôr hwnnw yn cyfateb i ddisgrifiad lefel ansawdd. Defnyddir graddfa o 1 i 5, felly os oes ansawdd rhagorol i ryw beth, mae'n cael 5 pwynt; os ystyrir ei fod yn dderbyniol rhoddir sgôr o 1. Er mwyn sicrhau bod yr asesu'n ddiudedd, mae ein Ymgynghorwyr Ansawdd yn cael hyfforddiant ac yn dilyn canllawiau penodol. Mae'r gwahanol bwyntiau gwerth yn arwydd o lefelau ansawdd cynyddol, sef:

- Ansawdd rhagorol – 5 pwynt
- Ansawdd da iawn – 4 pwynt
- Ansawdd da – 3 phwynt
- Ansawdd eithaf da – 2 bwynt
- Ansawdd derbyniol – 1 pwynt

Ar ôl cwblhau'r adroddiad yma a dyrannu sgoriau, byddant yn creu cyfanswm, a bydd sgôr cyfartalog ar gyfer ansawdd yr holl fusnes yn cael ei gyfrifo. Drwy edrych ar ystod canrannau bandiau sêr, mae'r Ymgynghorydd Ansawdd yn ystod y cam yma yn cael awgrym o beth allai'r Radd sêr derfynol fod.

Gradd Sêr	Canrannau Lefel Mynediad
★	34 – 47%
★★	48 – 59%
★★★	60 – 74%
★★★★	75 – 86%
★★★★★	87 – 100%

Fodd bynnag, cyn penderfynu ar y canlyniad terfynol, mae yna ddau gam arall.

Cam 2

Nawr mae'n rhaid i'r QA wirio cysondeb ansawdd gan ddefnyddio'r hyn yr ydym yn ei alw'n 'Gymwysyddion Adrannol'. Pwrpas hyn yw sicrhau nad yw un elfen o'r busnes sydd wedi bod yn sgorio'n uchel wedi codi'r marc canrannol cyffredinol i'r lefel Gradd sêr nesaf, a bod hynny'n rhoi camargraff i'r gwsteion ynghylch yr ansawdd yn gyffredinol, ac mae ymchwil wedi dangos bod ansawdd elfennau penodol mewn busnes yn arbennig o bwysig i westeion. Os bydd yr elfennau hynny yn is na disgwyliadau'r gwsteion ar lefel Gradd sêr benodol, maent yn debygol o fod yn gwsmeriaid siomedig. Felly, mae'n bwysig iawn bod ansawdd yr elfennau critigol yma yn cyfateb i radd cyffredinol y busnes.

Yr elfennau allweddol yw glanweithdra, lletygarwch/gwasanaeth, ystafelloedd gwely, ystafelloedd ymolchi, ardaloedd cyhoeddus a ceginau, ac mae'r sgoriau a roddir yn y meysydd yma yn cael eu defnyddio i gadarnhau'r Radd sêr terfynol. Mae gan bob un o'r meysydd Cymhwysio yma isafswm sgôr canrannol ar bob lefel, ond os na chyrhaeddir yr isafswm sgôr ar gyfer 1 Seren, ni fydd Gradd sêr yn cael ei roi.

Mae ymchwil defnyddwyr wedi dangos bod glendid yn holl bwysig ar unrhyw lefel ansawdd ac mae'r lleiafswm sgôr ar gyfer yr elfen hon ar gyfer pob gradd sêr yn adlewyrchu'r angen yma.

Mae'r ymchwil yma hefyd yn dangos bod gwesteion yn disgwyl elfen o gysondeb ym mhob rhan o'r eiddo, sydd yn golygu y dylai pob rhan o'r eiddo fod o safon sydd yn gymharol â'r radd sêr gyffredinol a ddyfarnwyd. Er mwyn sicrhau hynny, yn ychwanegol at y sgôr cyffredinol priodol, mae'n rhaid cyrraedd lefelau ansawdd sylfaenol yn y meysydd allweddol a amlinellir uchod er mwyn cadarnhau'r dyfarniad. Gelwir hynny yn gysondeb adrannol.

Dyfarniad

★	Dim maes i sgorio llai na 34% 34 – 47%	Dim maes i sgorio llai na 34% Lleiafswm sgôr Glendid o 40%
★★	Dim maes i sgorio llai na 40% 48 – 59%	Dim maes i sgorio llai na 40% Lleiafswm sgôr Glendid o 48%
★★★	Dim maes i sgorio llai na 54% 60 – 74%	Dim maes i sgorio llai na 54% Lleiafswm sgôr Glendid o 64%
★★★★	Dim maes i sgorio llai na 67% 75 – 86%	Dim maes i sgorio llai na 67% Lleiafswm sgôr Glendid o 76%
★★★★★	Dim maes i sgorio llai na 80% 87%+	Dim maes i sgorio llai na 80% Lleiafswm sgôr Glendid o 88%

Cymwysyddion

Cam 3

Yn olaf, mae'n rhaid gwirio a sicrhau bod unrhyw gyfleusterau/gwasanaethau ychwanegol sy'n ofynnol ar bob lefel benodol yn bodoli ac ar gael, yn ogystal â'r rhai sy'n ofynnol ar yr holl lefelau Sêr blaenorol.

Enghraifft A

Hostel sydd yn anelu am Dair Seren yn cyrraedd canran gyffredinol o 65% a'r canlynol:

– Glendid	68%
– Lletygarwch a Gwasanaeth	80%
– Ystafelloedd Gwely	41%
– Ystafelloedd Ymolchi	43%
– Ardaloedd Cyhoeddus	60%
– Cegin	72%

Byddai'r sefydliad yma yn cyrraedd Dwy Seren oherwydd ei fod yn methu â chyrraedd y

lefelau ansawdd gofynnol o ran ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi ar gyfer Tair Seren.

Ardal	Lefel				
	1	2	3	4	5
Glendid			●		
Lletygarwch a Gwasanaeth				●	
Ystafelloedd gwely		●			
Ystafelloedd ymolchi		●			
Ardaloedd Cyhoeddus			●		
Cegin			●		

Enghraifft B

Hostel sydd yn anelu am Dair Seren yn cyrraedd canran gyffredinol o 82% a'r canlynol:

– Glendid	68%
– Lletygarwch a Gwasanaeth	80%
– Ystafelloedd Gwely	84%
– Ystafelloedd Ymolchi	82%
– Ardaloedd Cyhoeddus	82%
– Cegin	83%

Byddai'r sefydliad yma yn cyrraedd gradd Tair Seren oherwydd ei fod yn methu â chyrraedd y lefelau ansawdd gofynnol o ran glendid ar gyfer Pedair Seren

Ardal	Lefel				
	1	2	3	4	5
Glendid			●		
Lletygarwch a Gwasanaeth				●	
Ystafelloedd gwely				●	
Ystafelloedd ymolchi				●	
Ardaloedd Cyhoeddus				●	
Cegin				●	

Defnyddio'r llyfryn hwn

Gofynion Mynediad Sylfaenol:

Mae'n rhaid bodloni'r holl Ofynion Mynediad Sylfaenol (MERau) er mwyn dyfarnu unrhyw radd. Mae'r rhain yn cael eu darlunio yn y llyfryn yma fel a ganlyn:

Enghraifft o MER

Mae gofynion ynghylch mwy o wybodaeth ychwanegol ar gyfer lefelau graddau uwch yn cael eu dangos yn glir, ac mae'n rhaid i'r rhain hefyd fod yn bresennol yn ogystal â'r ansawdd cymesur er mwy cyrraedd gradd sêr uwch.

Pam fod Ansawdd yn bwysig

Mae Croeso Cymru yn deall bod ansawdd yn allweddol i lwyddiant yn y diwydiant lletygarwch. Er mwyn cynnal enw da Cymru yn rhyngwladol am ddarparu croeso cyfeillgar a chynnes i ymwelwyr, mae'n bwysig ein bod yn parhau i gynorthwyo busnesau twristiaeth i barhau i fod yn gystadleuol a gwella'r cynnyrch sydd ganddynt i'w gynnig; dyluniwyd y cynllun Sicrhau Ansawdd er mwyn helpu busnesau i wneud hynny.

Nid yw ansawdd byth yn mynd allan o ffasiwn – mae eich sêr rhagoriaeth yn helpu i ymwelwyr wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, i roi hyder yn lefel y gwasanaeth a'r ansawdd yr ydych yn eu darparu ac yn galluogi eich busnes i ddisgleirio gyda rhagoriaeth.

Mae nifer sylweddol o weithredwyr twristiaeth yng Nghymru eisoes yn cymryd rhan yn y cynllun. Mae'r busnesau hyn yn derbyn cyngor diduedd ac arbenigol er mwyn hysbysu eu penderfyniadau buddsoddi – gan wella ansawdd a chreu swyddi.

Wrth asesu ansawdd, mae Croeso Cymru yn ystyried y canlynol:

- Ansawdd cynhenid – ansawdd cynhenid eitem.
- Cyflwr – edrychiad eitem a sut mae'n cael ei gynnal a'i gadw. A yw'n addas i'r diben?
- Cyfforddusrwydd corfforol a phersonol – a yw ansawdd eitem mewn unrhyw ffordd yn effeithio ar gyfforddusrwydd y defnyddiwr?
- Sylw i fanylder – y gofal amlwg a gymerwyd i sicrhau bod profiad y gwsteion yn rhagori ar ddisgwyliadau.
- Dewis i'r gwsteion a rhwyddineb defnyddio – mae profiad y gwsteion yn cael ei gyfoethogi drwy pa mor hawdd yw hi i'r gwstai ddefnyddio'r ystafell a'i chynnwys.
- Cyflwyniad – y ffordd y mae'r ystafell a'i chynnwys yn cael eu cyflwyno ar gyfer cyrhaeddiad y gwsteion a thrwy gydol eu harhosiad.

Gwasanaeth a Lletygarwch

Mae gwên, diddordeb annwyl a didwyll a pharodrwydd i blesio a gwasanaethu cwsmeriaid yn ofyniad cyffredin, ac mae'n ddisgwyliedig ar draws pob gradd sêr.

Ystafelloedd Gwely ac Ystafelloedd Ymolchi

Beth bynnag fo steil neu gysyniad yr ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi, ansawdd a chyfforddusrwydd yw'r hyn y bydd gwsteion a'n haseswyr yn ei ddisgwyl, yn benodol:

- Ansawdd a chyfforddusrwydd y gwely.
- Ansawdd y dillad gwely.
- Pa mor hawdd yw rheoli a defnyddio'r systemau goleuo a gwresogi.
- Ansawdd gosodiadau'r ystafell ymolchi, tyweli a pethau ymolchi.
- Technoleg a chysylltedd yn yr ystafell.

Glendid

Mae glendid yn eithriadol bwysig i bob cwsmer ar bob lefel sêr. Mae'n ddisgwyliedig y bydd pob busnes Hostel yn lân ym mlaen y tŷ a chefn y tŷ.

Naws am Le

Er nad yw ansawdd fyth yn mynd allan o ffasiwn, bydd ychwanegu Naws am Le i brofiad yr ymwelydd yn cyfrannu llawer at sicrhau y bydd yr arhosiad yn un cofiadwy.

Gall fod yn rhywbeth syml, fel ychwanegu arwyddion, cynnyrch, neu nodwedd o'ch busnes er mwyn ychwanegu ychydig o flas lleol. Neu gallwch ganfod ychydig o wybodaeth ddiddorol am eich ardal sy'n ychwanegu at eich gwybodaeth ranbarthol, a throsglwyddo hynny i'ch ymwelwyr. Mae 'croeso' yn unig yn rhoi argraff gyntaf neilltuol a bendigedig.

Rydym wedi llunio trosolwg o frand Cymru a chanllawiau ar ein Naws am Le. Gobeithio y bydd yr offer yma yn rhoi ychydig o syniadau i chi ynghylch sut mae creu profiad bythgofiadwy i ymwelwyr.

Ewch i <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/dolenni-defnyddiol> i gael mwy o wybodaeth.

Bwyd a Diod

Mae bwyd a diod yn mynd law yn llaw â lletygarwch a thwristiaeth yng Nghymru. Mae bwyd yn gynyddol yn ddylanwad pwysig ar benderfyniad pobl i ymweld â Chymru. Erbyn hyn mae ymwelwyr yn fwy craff, ac yn cymryd diddordeb yn nharddiad bwyd a beth sy'n digwydd ar hyd y daith i'w plât.

Os ydych yn cyfuno bwyd tymhorol a safon a chynhwysion lleol, llefydd diddorol i fwyta ac aros ynddynt, a rhai o gogyddion gorau'r byd, rydych yn diffinio'r sector lletygarwch yng Nghymru a'i enw da haeddiannol am ragoriaeth.

Er mwyn helpu i fusnesau ddatblygu'r hyn maent yn ei gynnig o ran bwyd, rydym wedi datblygu pecynnau hawdd i'w defnyddio.

Pecyn Twristiaeth Bwyd – Awgrymiadau, cyngor, sampl a fwydlenni ac arferion gorau fydd yn ddefnyddiol i'ch busnes.

Pecyn Brechwast Cymreig – Mwy o awgrymiadau a chynghor ar gynnig brechwast Cymreig gwych a sampl o fwydlenni.

Ewch i <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/dolenni-defnyddiol> i gael mwy o wybodaeth.

1.2 Is-gategoriâu/Dynodwyr

Math o Is-gategoriâu/Dynodwyr:

Mae'r is-gategoriâu/dynodwyr canlynol wedi cael eu datblygu er mwyn helpu cwsmeriaid ddeall y gwahanol fathau o lety sydd ar gael.

- Hosteli
- Llety Grwpiau
- Llety Gweithgareddau
- Tai Bynciau

Disgrifiad Cyffredinol:

Mae'r meini prawf yn briodol gymwys i lety allai ddisgrifio ei hun yn y ffyrdd canlynol:

Hostel

Llety â gradd seren yn aml mewn ystafelloedd a rennir gyda gwelyau bync, gall ystafelloedd teuluoedd fod ar gael hefyd. Fel arfer mae hosteli yn croesawu unigolion, teuluoedd a grwpiau, a nifer ohonynt yn aros am dymor byr. Yn aml mae gan hosteli strwythur wedi ei ffurfioli, allai gynnwys mynediad cyfyngedig, gwasanaeth pryddau bwyd ayyb neu beidio.

Llety Grwpiau

Llety â gradd seren yn aml mewn ystafelloedd a rennir gyda gwelyau bync. Yn gyffredinol dim ond archebiadau ar gyfer grwpiau a dderbynir. Efallai eu bod yn cynnig gwasanaeth llawn neu hunan-ddarpar.

Llety Gweithgareddau

Llety â gradd seren fel arfer yn cael ei ddarparu ar gyfer grwpiau. Bydd yn ofynnol i sefydliadau Llety Gweithgareddau feddu ar Dystysgrif AALA neu drwydded corff cenedlaethol arall mewn perthynas ag un neu ragor o weithgareddau awyr agored a gynhelir ar y safle. Efallai eu bod yn cynnig gwasanaeth llawn neu hunan-ddarpar.

Tai Bynciau

Llety gwledig ellir ei archebu gan grwpiau neu unigolion. Efallai y bydd gwasanaethau a chyfleusterau yn gyfyngedig, ond byddant yn cynnwys cyfleuster hunan-ddarpar.

Noder Bydd gan y pedwar math uchod o lety radd seren.

1.3 Cynaliadwyedd a Hygyrchedd

Cynaliadwyedd: Gwneud Busnes Hyd yn Oed yn Well

Mae twristiaeth gwyrdd ac ymarferion cynaliadwyedd yn eich busnes yn gyfystyr â'i gilydd; mae'n ymwneud â chymryd camau bach sydd yn eich galluogi i wneud busnes hyd yn oed yn well, nid yn wahanol. Bydd newidiadau bach nid yn unig yn arbed arian, yn gwella cysylltiadau cyflogaion, yn gwella proffidioldeb ac yn darparu profiad mwy cyfoethog i gwsmeriaid, ond dros gyfnod o amser byddwch hefyd yn gwella effaith eich busnes ar yr economi, cymuned a'r amgylchedd leol. Nid oes raid i 'Droi'n Wyrdd' fod yn feichus, ac mae hynny yr un mor gymwys i eiddo yng nghanol dinas ag yw i eiddo mewn lleoliad gwledig.

Gwella eich Hygyrchedd

Mae gan nifer o bobl anghenion hygyrchedd yn cynnwys pobl anabl, megis rhai â nam ar y clyw neu'r golwg, defnyddwyr cadeiriau olwyn, pobl hŷn a llai symudol a phobl gyda choetsys.

Drwy wneud mân addasiadau i'ch cyfleusterau, darparu gwybodaeth am eich hygyrchedd a deall anghenion pobl anabl, bydd eich busnes yn apelio at ystod ehangach o ymwelwyr ac yn denu mwy o fusnes.

Rhwymedigaethau Cyfreithiol

Mae gan fusnesau twristiaeth rwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a ddisodlodd Ddeddfau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 a 2005 (DDA) ar 1 Hydref 2010. Dylai darparwyr twristiaeth drin pawb sydd yn defnyddio eu nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau yn deg, beth bynnag fo'u rhywedd, hil, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, a pheidio â gwneud tybiaethau ynghylch nodweddiad unigolion.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr feddwl ymlaen llaw a chymryd camau i fynd i'r afael â'r rhwystrau sydd yn effeithio ar bobl anabl. Ni ddylai darparwyr ddisgwyl nes bod person anabl yn cael anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaeth, oherwydd gallai hynny fod yn rhy hwyr er mwyn gwneud yr addasiadau angenrheidiol.

1. Gwneud newidiadau 'rhesymol' i'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud – megis newid ymarferion, polisiau a gweithdrefnau mewn meysydd ble byddai pobl anabl yn wynebu 'anfantais sylweddol' e.e. newid polisi 'dim cŵn'.
2. Gwneud newidiadau 'rhesymol' i'r amgylchedd adeiledig – megis gwneud

newidiadau i strwythur adeilad er mwyn gwella mynediad e.e. addasu neu ddileu nodwedd ffisegol.

3. Darparu cymhorthion a gwasanaethau ategol – megis darparu gwybodaeth mewn fformat hygyrch, cylchwifren i gwsmeriaid gyda chymhorthion clywed.

Ni all darparwr gwasanaethau gyfiawnhau'n gyfreithiol methu â darparu addasiad rhesymol. Yr unig gwestiwn yw a yw'r addasiad yn un 'rhesymol' i'w wneud. Bydd beth sy'n 'rhesymol' yn dibynnu ar nifer o amgylchiadau, yn cynnwys cost addasiad, y budd posibl allai ei gynnig i gwsmeriaid eraill, yr adnoddau sydd gan sefydliad a pha mor ymarferol yw'r newidiadau.

2.0 Gofynion Mynediad Sylfaenol – Hosteli

2.1 Rhwymedigaethau Statudol

Cyflawni eich rhwymedigaethau statudol yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r rhai sy'n gysylltiedig â:

Diogelwch

- Iechyd a diogelwch yn y gwaith
- Diogelwch & hylendid bwyd
- Diogelwch Tân, Nwy a Thrydanol
- Profi Offer Trydanol
- Diogelwch Cynnyrch
- Rheoliadau gwelyau bync
- Safonau Prydeinig sydd yn gymwys i eitemau megis crudiau, cadeiriau uchel a chorlannau chwarae

Safleoedd

- Caniatâd Cynllunio
- Cyflenwad dŵr preifat
- Tai
- Trwyddedau Teledu

Gwahaniaethu

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Gwahaniaethu ar sail rhyw
- Gwahaniaethu ar sail hil
- Gwahaniaethu ar sail anabled
- Cwblhau datganiad mynediad/canllawiau hygyrchedd

Cofnodion

- Rheoliadau Diogelu Data/Diogelu Data Cyffredinol
- Cofrestru gwesteion
- Cofnodion Gwestai Mewnfudo

- Gwarchod Defnyddwyr

Disgrifiadau Masnach

- Hysbysebu
- Prasio a thelerau canslo
- Telerau Contractau Annheg

Bydd yn ofynnol i berchnogion ddarparu tystiolaeth bod Sicrwydd Atebolrwydd Cyhoeddus yn cael ei gynnal ac i ddarparu cadarnhad wedi ei lofnodi, wrth wneud cais ac adnewyddu cyfranogiad, a bod y gofynion uchod yn cael eu cyflawni.

2.2 Safonau Cyffredinol

Mae'r gofynion mynediad sylfaenol yn gymwys i lety allai ddisgrifio ei hun yn y ffyrdd canlynol:

- Hosteli
- Llety Grwpiau
- Llety Gweithgareddau
- Llety Tai Bynciau
- Rheolwr i gydymffurfio â 'Chod Ymddygiad' Croeso Cymru ac mae'n rhaid i bob hostel gyflawni eu hymrwymiaid statudol.
- Cyfleusterau hunan-ddarpar fel arfer yn cael eu darparu.
- Cadeiriau esmwyth ac ardaloedd bwyta ar gael gyda dodrefn priodol yn cael eu darparu. Mae cynllun agored neu ardaloedd bwyta/cegin/eistedd cyfun yn dderbyniol hyd at safon dyfarniad 4 Seren. Ar gyfer safon 5 Seren bydd angen ardal eistedd/lolfa, ar wahân i'r gegin (naill ai o ran gofod neu mewn ystafell ar wahân) gyda chadeiriau esmwyth priodol.
- Darpariaeth ar gyfer hongian a sychu dillad awyr agored gwlyb ar gael. Mewn llety grwpiau, ystafell sychu benodol o faint priodol i gael ei darparu. Dylai maint a gosodiad yr ystafell fod yn briodol ar gyfer grwpiau fydd yn cyrraedd.
- Gwesteion i gael mynediad at socedi pŵer digonol wedi eu lleoli'n gyfleus er mwyn galluogi defnyddio offer trydanol yn ddiogel (e.e. sychwyr gwallt, offer gwefru ffonau symudol ayyb). *Gellir eithrio yn ddibynnol ar ddisgresiwn Croeso Cymru mewn perthynas ag eiddo anghysbell gyda gwasanaethau cyfyngedig neu ddim o gwbl.*
- Yr holl ardaloedd cyhoeddus, ystafelloedd gwely, ystafelloedd ymolchi a cheginau i'w goleuo'n ddigonol er diogelwch a llesiant gwesteion. Mae gan yr holl oleuadau orchuddion oni bai fod y bylbiau yn addurniadol.

- Rhaid darparu manylion am y ffyrdd o alw am gymorth, yn ystod y dydd neu'r nos, mewn achos brys, a'u harddangos yn glir i westeion (e.e. staff/perchennog, meddyg, deintydd ayyb). Dylid darparu manylion y gwasanaethau brys.
- Pecyn cymorth cyntaf ar gael.
- Darpariaeth yn cael ei wneud er mwyn sicrhau diogelwch gwesteion ac eiddo gwesteion h.y. mynediad i'r brif fynedfa wedi ei reoli drwy ddefnyddio allwedd neu rywbeth arall, a hynny yn sylfaenol. Pan fo'n briodol, darpariaeth ar gyfer diogelwch eiddo gwesteion e.e. loceri, y gellir codi amdanynt.
- Pob ffenestr llawr isaf i gael dyfais gau effeithiol sydd yn atal eu hagor o'r tu allan.
- Os derbynnir archebiadau grŵp, mae'n rhaid i'r llestri, cytleri a chelfi'r gegin a ddarperir fod yn ddigonol o leiaf er mwyn sicrhau bod uchafswm maint bob grŵp yn gallu eistedd a bwyta gyda'i gilydd. Offer coginio (padelli a sosbenni ayyb) i gynnwys ystod o offer coginio o'r maint priodol.
- Ni ddylid caniatáu ysmegu mewn unrhyw ran o'r hostel.
- Dylid darparu Wifi am ddim pryd bynnag fo hynny'n bosibl.

2.3 Ystafelloedd Gwely

- Darparu lleiafswm arwynebedd llawr i bob gwely (neu fync) o 4 metr sgwâr (44 troedfedd sgwâr) e.e. 2 metr x 2 metr. Bydd yr arwynebedd hwn yn cael ei gyfrifo ar sail mwyafswm dimensiwn yr ystafell wedi ei rannu â nifer y fframiau gwely yn yr ystafell.
- Bydd y llefydd cysgu yn cael eu cyfrif fel a ganlyn:
Gwely bync = 1
Gwely sengl = 1
Gwely dwbl = 2
- Ni fydd effaith celfi (loceri, byrddau ger y gwely, ayyb) yn cael eu hystyried yn y cyfrifiad yma. Ond, dylid cydnabod na fydd ystafelloedd sydd yn bodloni'r gofyniad safonol yma o drwch blewyn, neu sydd yn fymryn yn fwy, yn debygol o gael marciau uchel yn yr asesiad ansawdd o 'Ofod a Chyfforddusrwydd'.
- Lleiafswm uchder nenfwd o 2 metr (6'7"). Mae bargodion neu nenfydau sy'n goleddfu yn dderbyniol, cyn belled nad ydynt yn cyfyngu ar symudiad rhydd rhesymol ym mhrif ran yr ystafell.
- Pob ystafell wely i gael o leiaf un ffenestr allanol sydd yn agor er mwyn darparu golau naturiol ac awyriad. Pob ffenestr i gael llenni

- neu fleindiau didraidd er mwyn preifatrwydd ac atal golau. Mae'n rhaid darparu system tymheru aer neu awyru mecanyddol pan na ellir agor y ffenestri, ac mae'n rhaid amlinellu hynny yn glir yn y wybodaeth cyn archebu.
- Yr ystafelloedd gwely i'w goleuo'n ddigonol er diogelwch a llesiant gwesteion.
- Pob eiddo i fod â'r gallu i ddarparu ardaloedd cysgu ar wahân ar gyfer y rhywiau, ac os na fydd hynny ar gael, dylid hysbysu'r gwesteion pan fyddant yn archebu.
- Mae'n rhaid i ofod y gwelyau fod yn o leiaf 1.9m (6'3") x 0.76m (2'6") (yn cynnwys platfformau alpaidd. *Sylwer os gwelwch yn dda:* Mae gwelyau sengl a bynciau maint llawn (6'3"x 3') a gwelyau dwbl (6' 3" x 4' 6") yn ofynnol ar safon 4 Seren.
- Ystafelloedd i gael eu darparu â gwelyau neu fynciau a matresi mewn cyflwr da. Gwelyau i gael fframiau mewn cyflwr da. Mae platfformau alpaidd gyda matresi yn dderbyniol hyd at 3 Seren.
- Mae'n rhaid i'r pellter fertigol rhwng y gwely isaf ac uchaf, a'r gwely uchaf a'r nenfwd mewn unrhyw fync fod yn o leiaf 0.75m (30"). Mae'n rhaid i wely bync gydymffurfio â Rheoliadau Gwelyau Bync.
- Rhaid i bob ystafell wely gael digon o ofod storio bagiau. Fel lleiafswm, gellid darparu hynny gyda digon o ofod llawr rhydd neu ofod o dan gwelyau/bync.
- Pob ystafell wely i gael bin gwastraff gwrth-fflam.
- Ystafelloedd gwely i gael bachau ar gyfer hongian dillad (o leiaf un i bob gwestai).
- Blancedi neu duvet a dillad gwelyau glân yn cynnwys un obennydd i bob person, ac un slip gobennydd glân ar gyfer pob gwestai newydd. Gwarchodwr matres neu gyffelyb yn cael ei ddarparu ar gyfer pob gwely. Mae eithriadau yn bosibl ar gyfer ysguboriau campio a thai bynciau gwledig/anghysbell iawn, ble disgwylir i westeion ddarparu eu dillad gwely eu hunain. Mae'n rhaid amlinellu hynny yn glir yn y wybodaeth cyn archebu.
- Dillad gwely ar gael am ddim neu i'w logi.

Gellir eithrio yn ddibynnol ar ddisgresiwn Croeso Cymru mewn perthynas ag eiddo anghysbell gyda gwasanaethau cyfyngedig neu ddim o gwbl. Mewn achosion o'r fath dylai hynny gael ei hysbysebu'n glir.

2.4 Cegin

Mae'n rhaid i eithriadau i ofynion mewn perthynas â cheginau hunan-ddarpar gael eu gwneud yn ôl disgrisiwn Croeso Cymru mewn perthynas ag eiddo sydd yn cynnig arlwyo llawn. Ond mae hynny yn amodol ar hysbysebu'r diffyg cyfleusterau hunan-ddarpar yn glir yn y wybodaeth cyn archebu. Dylai sefydliadau bwyta rhad eraill fod ar gael o fewn pellter cerdded.

Ni fydd yn ofynnol i 'Lety Grwpiau' a 'Llety Gweithgareddau' ddarparu cyfleusterau hunan-ddarpar pan mai pecyn gwasanaeth llawn (Cinio Gyda'r Nos, Gwely a Brecwast) yw'r cynnyrch arferol. Os na ddarperir cinio, dylai cyfleusterau ar gyfer paratoi pecynnau bwyd fod ar gael i'r gwesteion.

- Gosod larwm mwg neu synhwyrdd gwres neu synhwyrdd carbon monocsid yn yr holl ystafelloedd priodol.
- Darparu diffoddwr tân sydd yn addas ar gyfer tannau cegin a/neu flanced dân.
- Cegin i gynnwys nifer ddigonol o gyfarpar (padelli, sosbenni, cyllyll paratoi bwyd ayyb). sydd yn galluogi i o leiaf 20% o uchafswm nifer y gwesteion baratoi bwyd ar yr un pryd, ac eithrio llety grwpiau.
- Lleiafswm o 4 cylch pentan i gael eu darparu. Pan fo cyfanswm y llefydd cysgu yn fwy na 32, dylid darparu cylch pentan ychwanegol am bob 8 lle cysgu ychwanegol, hyd at y 100 gwestai cyntaf.
h.y. 32 lle cysgu: 4 cylch pentan.
 40 lle cysgu: 5 cylch pentan.
 48 lle cysgu: 6 cylch pentan.
 56 lle cysgu: 7 cylch pentan etc.
- Darparu tostiwr a phopty neu ficrodon a grill. Darparu pob un o'r rhain yn ôl cymhareb o 1 i bob 50 gwestai o leiaf, hyd at y 100 gwestai cyntaf.
- Pan ddarperir offer trydanol ychwanegol, mae'n rhaid i ddigon o socedi trydanol fod ar gael.
- Darparu digon o lestri a chytleri o ran amrywiaeth a niferoedd er mwyn galluogi i o leiaf 25% o'r 100 gwestai cyntaf fwyta ar yr un pryd, ac eithrio llety grwpiau.
- Digon o ofod storio bwyd mewn rhewgell ar gael.
- Darparu cyfleusterau berwi dŵr e.e. tegell neu geiser.
- Darparu cyfleusterau storio bwyd sych, sydd yn briodol ar gyfer nifer y gwesteion a wasanaethir e.e. silffoedd agored neu gypyrddau.

- Awyru ddigonol yn ardal y gegin.
- Darparu bin gwastraff â gorchudd a leiniau. Cyfleusterau ailgylchu ar gael.
- Digon o gyfleusterau golchi llestri gyda dŵr poeth ac oer a hylif golchi llestri.
- Darparu wyneb gweithio hylan.

2.5 Cyfleusterau Ystafelloedd Ymolchi, Toiled a Chawod

- Rhaid i gymarebau cawodydd, basnau ymolchi a thoiledau am bob lle cysgu gyrraedd neu fod yn uwch na'r lefelau gofynnol:

Gradd Sêr	Cymhareb	Er enghraifft: nifer y cawodydd sydd eu hangen mewn hostel â 300 o welyau
★	1:10	30
★★	1:10	30
★★★	1:8	38
★★★★	1:6	50
★★★★★	1:4	75

- Gellir caniatáu eithriadau i hosteli 5 Seren presennol nad ydynt yn gallu gwella ar gymhareb o 1:6.
- Mae'r cymarebau yma yn gymwys ar gyfer y 400 llefydd cysgu cyntaf, ac ar ôl hynny bydd y ddarpariaeth ychwanegol yn ddibynnol ar ddisgrisiwn Croeso Cymru yn dilyn trafodaeth gyda'r perchennog.

Noder: Bydd cyfleusterau allanol ond yn dderbyniol ar gyfer dyfarniad 1 Seren. Ni fydd cyfleusterau en-suite yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo'r cymarebau yma. Bydd llefydd cysgu yn yr holl ardaloedd, yn cynnwys pebyll, er enghraifft, yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiad yma, oni bai eu bod yn cael eu gwasanaethu gan gyfleusterau allanol ar wahân.

(Gellir eithrio o'r gofynion sylfaenol yma yn ddibynnol ar ddisgrisiwn Croeso Cymru mewn perthynas ag eiddo anghysbell gyda gwasanaethau cyfyngedig neu ddim o gwbl.)

- Mae'n rhaid cael preifatrwydd rhwng y rhywiau ar gyfer ymolchi/cawodydd a chyfleusterau toiledau, a rhwng aelodau o'r un rhyw pryd bynnag fo hynny'n bosibl.
- Pob ardal newid/cawodydd i gael gorchuddion ffenestri didraidd ar gyfer preifatrwydd.
- Pob ystafell ymolchi, cawod a thoiledau i gael awyriad digonol.

- Cyfleusterau sychu dwylo a sebon yn ofynnol ym mhob cyfleuster toiled cyhoeddus a ddefnyddir gan bobl nad ydynt yn preswyllo.
- Caead ar bob toiled, daliwr papur toiled, papur toiled a bin gwaredu glanweithiol (pan fo'n briodol) wedi eu darparu.
- Bachau dillad ym mhob ciwbicl cyfleusterau ymolchi/cawod.
- Darparu silff a phwynt eillio trydanol (neu addasydd ar gael) gyda drych yn agos.

2.6 Gofynion Mynediad Sylfaenol ar gyfer Llety Grwpiau

Yn ychwanegol at holl feini prawf 'Hostel', bydd 'Llety Grwpiau' hefyd angen:

- Rhaid i'r ardal fwyta gael digon o ofod a dodrefn fel y gall uchafswm nifer y gwsteion fwyta ar yr un pryd.
- Darparu digon o lestri, cytleri, gwydrau yfed, cyfarpar paratoi a choginio bwyd fel y gall cyfanswm nifer y gwsteion fwyta ar yr un pryd.
- Cyfleusterau storio offer addas ar gael.

3.0 Nodiadau Canllaw ar Ansawdd Hosteli

(Mae hyn hefyd yn cynnwys Llety Grwpiau, Gweithgareddau a Thai Bynciau.)

Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys y disgwyliadau nodweddiadol ar bob lefel seren. Nid ydynt yn rhagnodol, diffiniol nac yn gyflawn.

3.1 Y Tu Allan

3.1.1 Edrychiad Adeiladau

Décor, cyflwr yr adeilad ac i ba raddau mae'n cael ei gynnal. Mae hynny yn cynnwys gwaith cerrig, gwaith coed, rendrad, paent, gwteri, peipiau dŵr glaw, plymio allanol, simneiau a thoeau. Mae arwyddion allanol a atodir i'r adeilad (egllurder a chyflwr) a goleuadau yn cael eu hystyried yma. Bydd unrhyw adeiladau allanol ac ardaloedd storio e.e. ardaloedd ysbwriel, yn cael eu hasesu yma hefyd.

Un Seren

Efallai bod y tu allan angen sylw ac yn dangos ôl tywydd mewn mannau e.e. pibellau dŵr glaw yn rhydu, paent wedi caenu neu wedi ei staenio, ond yn gyffredinol bydd mewn cyflwr derbyniol a chadarn.

Dwy Seren

Yn gyffredinol mewn cyflwr da, dylai arwyddion o heneiddio a diffygion fod yn gyfyngedig i ychydig o rannau a dim diffygion strwythurol sylweddol amlwg. Gwaith coed mewn cyflwr da yn gyffredinol, er y gallai rhai rhannau ddangos ôl heneiddio/tywydd neu gaenu. Efallai bod yna fân ddiffygion, difrod, craciau ayyb i waith cerrig. Tyfiannau mwsogl neu gen sylweddol. Yr eiddo angen adfywiad. Arwyddion yn heneiddio.

Tair Seren

Y tu allan mewn cyflwr da yn gyffredinol, prif elfennau'r adeilad mewn cyflwr da. Gwaith paent yn ffres ar y cyfan gyda mân arwyddion o heneiddio neu staenio ar y gwaith paent allanol efallai. Drysau a ffenestri mewn cyflwr da, ond ddim yn newydd o reidrwydd. Yr holl ffabrig allanol mewn cyflwr da. Arwyddion mewn cyflwr da.

Pedair Seren

Efallai ddim yn gwbl ddilychwin drwyddo draw ond yn dal yn rhoi argraff gyntaf dda, a dim elfennau wedi eu hesgeuluso. Gwaith cerrig a phaent mewn cyflwr da iawn, efallai bod peth ôl tywydd naturiol yn weledol. Efallai bod yna rai nodweddion allanol ychwanegol er mwyn gwella edrychiad, megis bocsys ffenestri. Unrhyw adeiladau allanol neu estyniadau yn yr un cyflwr.

Pum Seren

Y safle mewn cyflwr rhagorol. Gwaith paent o ansawdd uchel gyda dim arwyddion o ddifrod nac ôl tywydd, dodrefn drysau ac arwyddion o ansawdd uchel. Yr un ansawdd uchel yn perthyn i gyflwr pob adeilad ar y safle.

3.1.2 Tiroedd, Gerddi a Pharcio

Os nad oes gan yr eiddo diroedd, gerddi neu le parcio o unrhyw fath a ddiffinnir yn glir, ni fydd yr adran yma yn cael ei hasesu.

Bydd asesiad o'r maes yma yn cynnwys ardaloedd gerddi, gwrychoedd, llwybrau, rhodfeydd, llefydd parcio, goleuo a'r holl ardaloedd eraill o fewn ffiniau diffiniedig amlwg (h.y. o fewn ffensys, waliau neu wrychoedd) yr eiddo, ac sydd yn cael eu rheoli gan y sefydliad.

Un Seren

Llwybrau diogel, arwyddion mewn cyflwr rhesymol, argraff gyntaf dderbyniol. Tiroedd yn rhesymol daclus, efallai bydd rhai elfennau angen mwy o sylw. Ansawdd a chyflwr derbyniol i'r llefydd parcio, os y'u darperir.

Dwy Seren

Tystiolaeth o beth ymdrech i wneud y gerddi'n ddeniadol, taclus a heb ysbwriel. Llwybrau mewn cyflwr da, heb beryglon baglu. Maes parcio diogel mewn cyflwr eithaf da, gyda mynediad rhesymol rwydd.

Tair Seren

Safon dda yn gyffredinol. Bydd pob maes yn dangos tystiolaeth o sylw rheolaidd h.y. dim ysbwriel, gwellt wedi ei dorri a dim ond mân dyfiant ar y llwybrau/rhodfeydd. Arwyddion mewn cyflwr da ac yn effeithiol. Ardaloedd parcio mewn cyflwr diogel a defnyddiadwy.

Pedair Seren

Gwaith cynnal a chadw da iawn yn y gerddi. Gwelyau, llwybrau a gwrychoedd taclus. Yr holl goed a phrysg yn cael gofal da. Ardal biniau ddim yn weledol ac wedi ei sgrinio yn ddelfrydol. Mynediad rhwydd i'r llefydd parcio, gyda wynebaw mewn cyflwr da, a diffiniad clir.

Pum Seren

Tirlunio, planhigion a nodweddion dylunio meddylgar a dychmygus, a hynny'n briodol i'r lleoliad a'r amgylchedd. Gall gynnwys barbeciw/ ardal patio a chadeiriau yn yr ardd. Gall gynnwys goleuadau allanol effeithiol. Arwyddion o ansawdd uchel mewn cyflwr dilychwin. Gofal a sylw manwl yn amlwg yn cael ei roi i bob agwedd. Bydd y llefydd parcio, pan y'u darperir, wedi eu gosod yn dda gydag arwyddion eglur a wyneb mewn cyflwr priodol. Cyflwyniad rhagorol yn gyffredinol.

3.1.3 Yr Amgylchedd

Adlewyrchiad o agweddau cadarnhaol a negyddol lleoliad yr eiddo a'r ardal gyfagos allai effeithio ar gyfforddusrwydd gwasteion.

Un Seren

Mewn ardal drefol llai ffafriol, peth pellter oddi wrth drafnidiaeth gyhoeddus ond ddim yn wledig mewn unrhyw ffordd. Gallai fod yn dda ar wahân i un nodwedd benodol yn yr amgylchedd gyfagos neu'r olygfa.

Dwy Seren

Mewn lleoliad sydd yn gymharol gyfleus gyda pheth trafndiaeth gyhoeddus gyfyngedig. Mewn lleoliad trefol sydd efallai beth pellter o ganol dref. Mewn lleoliad gwledig sydd efallai wrth ymyl priffordd neu sydd â golygfeydd cyfyngedig.

Tair Seren

Mewn canol tref/dinas, gyda pheth cyfyngiadau parcio a thraffig prysur, ond yn agos at yr holl amwynderau. Ar fferm weithredol ble mae'r mynediad yn fwdlyd neu mae yna rai peiriannau ffermio yn agos. Mewn ardal maestrefol o ddinas ble mae yna draffig prysur a sŵn.

Pedair Seren

Byddai amgylchedd da iawn yn cynnwys safleoedd gwledig allai fod yn agos i ffyrdd, ond sydd yn elwa o olygfeydd braf agored. Mae safleoedd trefol yn debygol o fod yn agos at brif atyniadau a thrafnidiaeth, peth ymdrech e.e. ffenestri dwbl, wedi ei wneud i ddatrys sŵn traffig/stryd.

Pum Seren

Mewn lleoliad trefol yng nghanol dinas yn agos iawn at yr holl amwynderau, atyniadau a chysylltiadau trafndiaeth. Mewn lleoliad gwledig gyda golygfeydd agored mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol, wedi ei leoli'n ddelfrydol ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau awyr agored.

3.2 Lletygarwch a Gwasanaeth

3.2.1 Lletygarwch

Bydd yr asesiad yn ystyried agwedd y staff, sgiliau gofal cwsmeriaid, y croeso a'r holl gyswllt â gwasteion.

Un Seren

Lletygarwch yn gyffredinol o safon dderbyniol gofynnol. Gellid gwella ar gynhesrwydd y croeso, ychydig iawn o gyswllt rhwng y gwasteion a'r staff neu berchnogion.

Dwy Seren

Lletygarwch o safon eithaf da gyda pheth croeso cynnes. Yn debygol o gynnwys peth cyswllt cadarnhaol â chwsmeriaid gan y staff.

Tair Seren

Lletygarwch o safon dda, gyda chroeso cynnes amlwg. Staff ar gael ac yn barod i roi cyngor, gwybodaeth a chymorth i westeion pan ofynnir am hynny.

Pedair Seren

Lletygarwch o safon dda iawn. Staff yn dangos ymrwymiad i ofal cwsmeriaid. Staff yn rhagweithiol o ran cynnig cyngor a chymorth i westeion, yn amlwg yn weledol ac yn barod i helpu bob amser o fewn rheswm.

Pum Seren

Lletygarwch rhagorol gyda chroeso personol. Yn rhagweithiol o ran sicrhau cyffordduswydd a llesiant gwesteion drwy gydol eu harhosiad. Gall gynnwys mewnbwn a chymorth cadarnhaol a gwybodus mewn perthynas â chynlluniau a gweithgareddau'r gwesteion. Dylai'r staff fod yn amlwg, ond ddim yn ymwthiol a pharchu preifatrwydd gwesteion os yn briodol.

Ar gyfer Llety Grwpiau, Llety Gweithgareddau a Llety Tai Bynciau, ni fydd aros dros nos yn bosibl; felly bydd yr adran yma yn cael ei dynnu o'r asesiad.

3.2.2 Gwasanaeth ac Effeithlonrwydd

Byddir yn asesu cymhwysedd, cyflymder a gallu staff wrth ddelio â gwesteion a'u gofynion. Bydd hynny yn cynnwys yr ymholiad cychwynnol, archebu, cyrraedd a gadael, yn ogystal â chyswllt cyffredinol yn ystod arhosiad gwesteion, effeithiolrwydd rheoli cyffredinol, gwybodaeth i westeion.

Un Seren

Gwasanaeth yn gyffredinol o safon dderbyniol. Gall fod yn anodd cysylltu â staff i wneud archebiad. Ymagweddd hamddenol at archebu yn arwain at ddiffyg cadarnhad pendant bod archebiadau wedi eu sicrhau. Gweithdrefnau archebu a derbyn effeithiol, ond ychydig iawn o gyswllt gan staff.

Dwy Seren

Gwasanaeth o safon eithaf da. Gall oriau derfynfa cyfyngedig olygu bod cysylltu i archebu yn anodd. Pan ddibynnir ar beiriannau ateb ffôn, dylid ymateb i unrhyw ymholiadau a adawir ar y rhain yn amserol. Delio â'r holl archebiadau yn effeithiol ac mewn ffordd sydd yn golygu bod gwesteion yn hyderus bod eu archebiad wedi ei sicrhau ac wedi ei gofnodi'n briodol.

Tair Seren

Gwasanaeth o safon dda. Gweithdrefnau archebu clir a threfnus iawn. Gellir cysylltu'n rhwydd â'r staff neu'r rheolwr i archebu, gyda dim ond ychydig o ddibyniaeth ar beiriannau ateb ffôn, os o gwbl. Dylai staff fod yn barod i gynnig gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol (cyfarwyddiadau, trafndiaeth gyhoeddus ayyb) ar gais. Gwesteion yn gwbl hyderus yn y system archebu.

Pedair Seren

Gwasanaeth o safon dda iawn. Dylai gweithdrefnau archebu clir a rhwydd fod ar gael drwy amrywiol sianelau (ffôn, e-bost,

rhyngrwyd, archebu uniongyrchol ayyb). Dylid ymateb yn gyflym ac effeithiol i bob ymholiad drwy ba bynnag sianel.

Pum Seren

Safonau gwasanaethau eithriadol. Gweithdrefnau archebu rhagorol drwy amrywiol sianelau sydd yn ymgorffori dull gadarnhaol a rhagweithiol o sicrhau bod gwesteion yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol yn gyflym mewn ffordd groesawgar a defnyddiol.

3.2.3 Cyffyrddiadau Personol a Gwybodaeth i Ymwelwyr

Bydd asesiadau yn ystyried amrywiaeth ac ansawdd cyffyrddiadau personol ychwanegol, casgliadau a llyfrau. Gwybodaeth i dwristiaid ar gael i westeion.

Un Seren

Ychydig iawn o wybodaeth ymwelwyr ar gael, hen daflenni wedi gorffen eu hoes ayyb. Ychydig iawn o dystiolaeth o gyffyrddiadau personol.

Dwy Seren

Bydd taflenni a gwybodaeth yn gyfredol, wedi eu harddangos yn daclus a chyfleus. Amrywiaeth cyfyngedig o wybodaeth, yn debygol o gynrychioli gwasanaethau neu atyniadau lleol yn unig. Ychydig iawn o gyffyrddiadau personol.

Tair Seren

Darpariaeth dda fydd yn sicr yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am yr ardal a gwybodaeth am drafndiaeth gyhoeddus leol/rhanbarthol. Efallai y bydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am hosteli mewn ardaloedd eraill sydd yn rhan o'r rhwydwaith. Ymdrech glir i ddarparu awyrgylch groesawgar a phersonol.

Pedair Seren

Gwybodaeth dda iawn am yr holl amwynderau lleol. Tystiolaeth dda o gyffyrddiadau personol – blodau, planhigion, casgliadau, arddangosiadau.

Pum Seren

Darpariaeth ragorol fydd, yn ogystal â'r llyfryn arferol neu arddangosiadau digidol, yn aml yn cynnwys gwybodaeth leol wedi ei pharatoi yn bersonol. Bydd hynny fel arfer yn cynnwys cyngor a gwybodaeth na chynhyrchir neu a gymhellir yn fasnachol ond fydd o ddiddordeb i'r gwesteion. Mae'n debygol y bydd cyfleusterau ychwanegol i westeion, megis teledu, llyfrau, cylchgronau ayyb, yn cael eu darparu.

3.3 Glendid Pob Ardal

Bydd yr asesiad o lendid yn cynnwys ystyriaeth i safonau cymhennu mewn perthynas â phob elfen o'r ardaloedd cyhoeddus a bwyta, ystafelloedd gwely, coridorau, grisiau, ystafelloedd ymolchi, toiledau a chyfleusterau ceginau hunan-ddarpar.

Un Seren

Mae'n debygol mai'r safonau a welir ar y lefel yma yw'r rhai gofynnol derbyniol, ac mae'n debyg y bydd angen gwelliant sylweddol a systematig er mwyn cynnal y dyfarniad mewn asesiadau i'r dyfodol. Diffyg sylw mewn rhai llefydd e.e. y tu ôl i ddodrefn, drysau neu doiledau, ffitiadau golau, ffannau echdynnu, sgyrtin ayyb. Bydd angen monitro ardaloedd storio a pharatoi bwyd yn benodol yn ofalus.

Dwy Seren

Bydd y safon yma yn cynrychioli lefel eithaf da o lendid, gydag efallai rhai meysydd i'w gwella, ond dim elfen yn achosi pryder.

Tair Seren

Safon glendid da, sylw rheolaidd wedi ei roi i bob agwedd a safonau yn cael eu cynnal yn gyson. Dull systematig gyda thystiolaeth bod safonau clir yn cael eu gosod a'u monitro drwyddi draw. Efallai y byddir yn awgrymu mwy o sylw i fanylder mewn rhai llefydd e.e. ffannau echdynnu, y tu mewn i boptai ac oergelloedd, y tu mewn i gypyrddau a droriau neu o dan sinciau.

Pedair Seren

Safon dda iawn yn gyffredinol gyda sylw da ac amlwg i fanylder yn y rhan fwyaf o'r meysydd, ond ddim yn cyrraedd yn hollol safon ragorol ym mhob agwedd. Mân feysydd i'w gwella megis rhai ffannau echdynnu heb eu glanhau, growtio wedi colli lliw, y tu ôl i boptai neu y tu mewn i ffitiadau golau.

Pum Seren

Dilychwin drwyddi draw gydag ymagwedd broffesiynol a thrylwyrdd manwl yn amlwg ym mhob agwedd. Sylw penodol at fanylder mewn perthynas â dodrefn meddal, lloriau mewn llefydd prysur megis coridorau a grisiau, wynebau cegin a ffitiadau. Wynebau yn disgleirio, dim olion na marciau, dim bylbiau neu offer diffygiol. Gwelyau a dillad gwelyau wedi eu cyflwyno'n dda. Ardaloedd ysbwriel wedi eu cadw'n lân ac ysbwriel yn cael ei waredu'n rheolaidd. Sylw gofalus a chyson at hyd yn oed fân fanlyon sydd yn arwain at safon sydd yn ddilychwin i bob pwrpas.

3.4 Ansawdd Bwyd a Gwasanaeth

Ni fydd bwyd a ddarperir ac a fydd ar gael i bob gwestai fel cyfleuster 'rhydd' ar sail hunan-ddarpar yn cael ei asesu.

3.4.1 Ansawdd Bwyd – Brecwast

Bydd yr asesiad yn ystyried ansawdd ac amrywiaeth yr eitemau a gynigir a safon y cyflwyniad.

Un Seren

Amrywiaeth cyfyng allai fod yn ddewis cyfandirol cyfyngedig iawn. Cynhwysion o safon economi 'arlwyo swmpus' yn cael eu cynnig yn eu cynwysyddion gwreiddiol.

Dwy Seren

Amrywiaeth digonol o ddewisiadau cyfandirol, ond efallai na fydd yn cynnwys opsiwn bwyd poeth.

Tair Seren

Amrywiaeth dda o ddewis sydd yn debygol o gynnwys opsiwn bwyd poeth. Y dewisiadau ar y fwydlen yn debygol o fod o ansawdd safonol gyda dim ond ychydig o ymdrech i ddarparu unrhyw eitemau anarferol neu leol.

Pedair Seren

Amrywiaeth o ddewis da iawn fydd yn cynnwys opsiwn bwyd poeth llawn neu gyfandirol sylweddol. Bydd yr holl ddewisiadau ar y fwydlen wedi eu paratoi'n dda, yn ddeniadol ac wedi eu cyflwyno'n ffres.

Pum Seren

Amrywiaeth estynedig o ddewisiadau ar y fwydlen yn cynnwys amrywiaeth o rawnfwydydd, brecwast poeth llawn a/neu opsiynau cyfandirol. Bydd y cynhwysion o safon uchel iawn, ac yn rhai lleol pan fo'n bosibl a phriodol.

3.4.2 Ansawdd Bwyd – Cinio Gyda'r Nos

Bydd yr asesiad yn ystyried ansawdd ac amrywiaeth yr eitemau a gynigir a safon y cyflwyniad.

Un Seren

Gallai gynnwys un neu dau o gyrsiau yn unig gyda dim dewis, ac opsiynau llysieuol ond ar gael drwy drefniant ymlaen llaw. Prydau parod wedi eu cynhesu ar y safle gyda dim llawer o ymdrech o ran cyflwyniad. Dognau bach, bwytadwy a digonol.

Dwy Seren

Gall y prydau bwyd fod o ansawdd da, ond yn gyfyngedig o ran y dewis ar y fwydlen a nifer y cyrsiau. Gallai'r bwydlenni ddangos dibyniaeth ar gynhwysion wedi eu paratoi ymlaen llaw neu gynhwysion wedi rhewi.

Tair Seren

Dylai'r holl brydau bwyd fod wedi eu paratoi'n dda a'u cyflwyno'n ddeniadol.

Pedair Seren

Dewis da iawn ar y fwydlen, a dylai un ohonynt fod yn llysiuol. Bydd y cynhwysion o safon uchel iawn, ac yn rhai lleol a ffres pan fo'n bosibl a phriodol. Bydd yr holl ddewisiadau ar y fwydlen wedi eu paratoi'n dda, yn ddeniadol ac wedi eu cyflwyno'n ffres.

Pum Seren

Amrywiaeth rhagorol o ddewis ar gyfer pob cwrs.

3.4.3 Prydau Bwyd – Gwasanaeth

Bydd yr asesiad yn ystyried effeithlonrwydd y gwasanaeth bwyd, lefelau sgiliau priodol ac ergonomeg dylunio cyfleusterau hunan-wasanaeth.

Un Seren

Mewn cyfleuster a wasanaethir neu gyfleuster hunan-wasanaeth, bydd y staff yn gyffredinol ddymunol ac yn ymateb mewn ffordd resymol gynorthwyol i geisiadau. Dylai'r holl staff sydd yn ymwneud â gwasanaeth bwyd gael eu hyfforddi'n briodol ynghylch trin bwyd.

Dwy Seren

Staff gwasanaeth yn dangos peth sgil a diddordeb. Dylai digon o staff fod ar gael i weini a/neu clirio'r byrddau yn ôl yr angen. Dylai staff ddangos parodrwydd i helpu ac i fod yn sylwgar. Mewn cyfleuster bwyta hunan-wasanaeth, gall ystod ac argaeledd y dewisiadau ar y fwydlen amrywio yn ystod cyfnodau gwasanaeth.

Tair Seren

Bydd y gwasanaeth yn gyfeillgar ac effeithlon bob amser. Dylai cyfleusterau hunan-wasanaeth fod â dyluniad a gosodiad ergonomig effeithiol rhesymol. Dylai staff gael lefel resymol o wybodaeth am gynnyrch, yn arbennig mewn perthynas ag addasrwydd eitemau ar y fwydlen ar gyfer llysiuwyr neu anghenion dietegol penodol cyffredin eraill. Gall hynny, mewn amgylchedd hunan-wasanaeth, gael ei gynnig yn rhannol gan arwyddion priodol a gwybodaeth ar y pwynt gwasanaethu.

Pedair Seren

Staff rhagweithiol a gwybodus sydd ag agwedd gyfeillgar a gofalgar. Dylai staff gael lefel uchel o wybodaeth am y cynnyrch. Mewn amgylchiadau hunan-wasanaeth, gellid cyflawni hynny'n rhannol drwy labelu'r bwyd a gynigir yn glir.

Pum Seren

Dylai'r gwasanaeth gael ei ddarparu gydag elfen sylweddol o sgil rhagweithiol, cyfeillgar a phroffesiynol. Dylai'r ystod lawn o ddewisiadau bwydlen fod ar gael drwy gydol y gwasanaeth. Bydd gan gyfleusterau hunan-wasanaeth ddyluniad ergonomig rhagorol.

3.5 Ardaloeðd Cyhoeddus (yn cynnwys yr holl risiau, pen grisiau, coridorau, ardaloeðd bwyta a thai bwyta)

3.5.1 Addurno

Bydd asesu'r elfen yma fel arfer yn cynnwys yr holl orchuddion waliau, gorffeniadau, lluniau, posterï ayyb ar waliau a nenfydau'r ardaloeðd cyhoeddus. Mae hynny yn cynnwys lolfa gwesteion, ardaloeðd bwyta, tai bwyta, derbynfa, grisiau a choridorau sydd yn darparu mynediad at gyfleusterau defnydd cyffredinol.

Un Seren

Décor o ansawdd elfennol allai ddangos peth ôl defnydd, ond yn dal o safon dderbyniol.

Dwy Seren

Safon décor eithaf da, ond efallai bydd rhai ardaloeðd angen sylw.

Tair Seren

Décor o ansawdd da gyda dim ond ychydig o ôl defnydd. Gall fod yn ymarferol ond yn ffres o ran edrychiad ac mewn cyflwr da, gwaith llaw wedi ei wneud yn effeithiol ond heb orffeniad 'proffesiynol'. Efallai bod ychydig o luniau neu ffotograffau wedi eu defnyddio i gyfoethogi'r décor.

Pedair Seren

Décor o safon dda iawn drwyddi draw. Gall fod yn orffeniad cymharol syml e.e. emwlsiwn, ond wedi ei ddefnyddio a'i gynnal yn rhagorol. Gellir defnyddio lluniau/ffotograffau neu waith celf arall er mwyn cyfoethogi'r cyflwyniad. Dylid cynnal safonau uchel ym mhob ardal gyhoeddus. Ychydig iawn o farciau gweledol neu ddifrod, os o gwbl.

Pum Seren

Décor o ansawdd uchel iawn gyda lliwiau, lluniau a phrintiau wedi eu defnyddio'n ystyrllon (e.e. golygfeydd lleol) a nodweddion addurniadol eraill. Nodweddion pensaernïol gwreiddiol wedi eu hadfer neu eu cynnal i safon ragorol ac wedi eu defnyddio'n effeithiol.

3.5.2 Dodrefn, Celfi a Gosodiadau

Bydd asesu'r agweddau yma fel arfer yn cynnwys holl gelfi'r ardaloedd cyhoeddus yn cynnwys byrddau a chadeiriau bwyta, cadeiriau, byrddau coffi/achlysurol, llenni. Ffitiadau golau ac offer/ffitiadau gwresogi yn yr ardaloedd yma.

Un Seren

Celfi, dodrefn a gosodiadau o ansawdd elfennol, ond yn dal mewn cyflwr defnyddiadwy. Efallai yn dangos ôl defnydd.

Dwy Seren

Celfi, dodrefn a gosodiadau mewn cyflwr eithaf da, efallai o ansawdd cymedrol, efallai yn dangos ôl defnydd.

Tair Seren

Holl gelfi a dodrefn o safon dda, er bod oedran a defnydd yn dechrau amlygu mân arwyddion o draul.

Pedair Seren

Mae'n rhaid i'r celfi a'r dodrefn gynnig lefel uchel o gyfforddusrwydd a chaniatáu digon o gadeiriau ar gyfer nifer y gwesteion. Mae'r holl eitemau o ansawdd uchel, yn cael eu cynnal yn dda ac mewn cyflwr rhagorol.

Pum Seren

Celfi yn cynnig lefel ragorol o gyfforddusrwydd ac ansawdd. Celfi bwyta cadarn yn cynnig lefelau uchel o gyfforddusrwydd, cadeiriau wedi eu gwahanu'n dda ar uchder priodol ar gyfer byrddau. Gallai meinciau fod yn rhagorol os ydynt o safon uchel ac yn rhai swmpus.

3.5.3 Lloriau

Bydd asesu'r agwedd hon fel arfer yn cynnwys gorffeniadau a gorchuddion lloriau ym mhob llofa, derbynfa ac ardaloedd cyhoeddus. Grisïau i'r llawr cyntaf a choridorau sydd yn darparu mynediad at gyfleusterau defnydd cyffredinol.

Un Seren

Lloriau mewn cyflwr derbynol yn gyffredinol, peth ôl defnydd i'w weld ond nid yn ormodol. Gall fod o ansawdd cymedrol iawn e.e. carped

tenau gyda dim neu dim ychydig o isgarped. Gall fod yn lawr coed mewn cyflwr defnyddiadwy a diogel, gall hefyd fod yn goncrïd wedi ei baentio.

Dwy Seren

Lloriau mewn cyflwr eithaf da yn gyffredinol a/ neu o ansawdd eithaf da. Gall fod o ansawdd da, ond yn dangos ôl defnydd neu ddarnau wedi mynd yn fflat a rhai marciau. Gellir ystyried bod lloriau finyl neu goed mewn cyflwr rhesymol yn perthyn i'r safon yma.

Tair Seren

O safon dda yn gyffredinol, efallai peth ôl defnydd ond dim yn sylweddol, efallai bod rhai lloriau yn well na'i gilydd, ond bydd pob un wedi eu cynnal yn rhesymol dda.

Pedair Seren

Lloriau o safon dda iawn yn yr holl ardaloedd cyhoeddus. Gall y carpedi fod o ansawdd 'contract' da ond wedi eu gosod yn dda heb farciau amlwg nag ôl defnydd na difrod. Bydd lloriau coed wedi eu selio ac wedi eu cynnal yn dda.

Pum Seren

Lloriau o safon ragorol drwyddi draw, carpedi wedi eu gosod yn broffesiynol, heb ddim arwyddion amlwg o ddefnydd neu unrhyw ddifrod a gydag isgarped o ansawdd da. Gallai gorffeniadau eraill neu ddewisiadau naturiol eraill e.e. lloriau laminad, lloriau coed caboledig, lloriau parquet fod o safon ragorol os ydynt o ansawdd cynhenid uchel ac wedi eu cynnal yn dda.

3.5.4 Goleuadau a Gwresogi

Bydd asesu'r agweddau yma fel arfer yn cynnwys lefel, dosbarthiad ac i ba raddau y gellir rheoli goleuadau a darpariaeth gwresogi, yn ogystal â'r amrywiaeth o oleuadau.

Un Seren

Goleuadau a gwres digonol yn yr holl ardaloedd byw yn cynnwys coridorau, grisïau a pen grisïau. Lefelau derbynol o olau, efallai mai'r lleiafswm watiu a ddarperir. Efallai bod y gwresogi'n llai effeithiol nag y dylai fod ar gyfer yr ystafell gyfan yn ystod cyfnodau oerach. Yn debygol o fod yn offer o ansawdd cymedrol gydag allbwn cyfyngedig neu wresogyddion ar eu traed eu hunain. Bydd gan ddnau tanwydd soled gyflenwad digonol a hygyrch o danwydd.

Dwy Seren

Goleuo eithaf da, ond efallai ddim yn cyrraedd pob rhan o'r ystafell. Gorchudd priodol ar yr

holl fylbiau, oni bai eu bod yn rhai addurniadol. Goleuadau'n debygol o fod yn effeithiol at ddibenion cyffredinol ond ddim yn gallu darparu golau tasg neu olau amgylchol pe bai angen hynny. Gwres ar gael ac yn effeithiol, ond dim ond ar adegau penodol, megis modelau elfennol o wresogyddion storio dros nos heb gyfleuster hybu, neu wres canolog gydag amseru cyfyngedig.

Tair Seren

Mwy nag un ffynhonnell o olau yn debygol, sydd yn rhoi digon o olau at bob diben ymarferol. Ardaloedd bwyta wedi eu goleuo'n addas. Lefel dda o wres sydd yn cynnal tymheredd cefndirol cyfforddus yn yr holl ardaloedd. Cwbl effeithiol ac ar gael ar adegau priodol. Gall fod yn wresogydd storio mwy modern ac effeithiol, ond heb gyfleuster hybu, neu system gwres canolog gwlyb gyda rheolaeth llif yn unig, a rheiddiaduron o faint a dosbarthiad minimol ar gyfer yr ystafell. Pan fo'n briodol, gall y gwres fod yn effeithiol iawn, yn cael ei ddarparu neu ei atgyfnerthu gan stof draddodiadol neu dannau agored.

Pedair Seren

Golau effeithiol ym mhob rhan o'r ystafell, a gall gynnwys ychydig o oleuadau ategol (lampau bwrdd, lampau safonol ayyb). Efallai bod yna oleuadau uwch ben yr ardal fwyta y gellir eu rheoli ar wahân ayyb. System wresogi effeithiol ac adweithiol iawn yn yr holl ystafelloedd. Offer neu reiddiaduron wedi eu lleoli'n dda, ar gael bob amser o fewn rheswm a gellir eu rheoli'n llawn.

Pum Seren

Goleuadau effeithiol o ansawdd uchel, sydd yn rhoi digon o olau i bob rhan o'r ystafell at bob diben ymarferol. Bydd hynny fel arfer y cynnwys golau ategol, achlysurol a thasg ar gyfer darllen/bwyta ayyb. Efallai y gellir rheoli lefelau'r golau. System wresogi adweithiol, gyda darpariaeth wrth gefn. Gallai fod yn wres canolog sydd ar gael 24 awr y dydd ac a reolir â thermostat. Bydd gan dannau tanwydd solet, pan y'u darperir, gyflenwad hael o danwydd yn barod i'w ddefnyddio ac ar gael yn rhwydd i westeion.

3.5.5 Lle, Cyffordduswydd a Defnydd Rhwydd

Bydd asesu'r elfen yma fel arfer yn ystyried ehangder, gosodiad, cyffordduswydd ac amgylchedd mewn perthynas â lefelau defnydd arferol. Disgwylir y bydd gofod yn gyffredinol fwy cyfyngedig mewn amgylcheddau canol dinas na mewn eiddo mwy gwledig neu anghysbell.

Un Seren

Lle cyfyngedig, amrywiaeth ac argaeledd cadeiriau yn gyfyngedig. Amgylchedd derbyniol heb lefelau sŵn sydd yn tarfu ayyb.

Dwy Seren

Safon eithaf da yn gyffredinol allai gynrychioli ystafelloedd sydd fel arall wedi eu gosod yn dda, nad ydynt mewn gwirionedd yn ddigon mawr ar gyfer lefelau defnydd arferol. Gallent fod yn ystafelloedd sydd yn cynnwys digon o gadeiriau ar gyfer lefelau defnydd arferol, ond bod hynny ar draul lle i symud yn rhesymol rydd a chyffordduswydd. Efallai bod yr awyrgylch a chyffordduswydd wedi eu cyfaddawdu gan ardal cegin/bwyta/lolfa gyfun mewn ystafell cymharol fach.

Tair Seren

Ystafelloedd o faint da gyda digon o le i symud yn rhwydd. Dylai'r ystafelloedd fod yn ddigon mawr ac wedi eu dodrefnu er mwyn caniatáu lefelau defnydd arferol. Mae'n debygol y bydd ardaloedd lolfa wedi eu gwahanu'n braf oddi wrth yr ardaloedd cegin/bwyta, o ran gofod o leiaf.

Pedair Seren

Safon dda iawn yn gyffredinol.

Pum Seren

Ystafell wedi ei chynllunio'n dda sydd yn cynnig lefelau uchel o gyffordduswydd i bob defnyddiwr, dodrefn/teledu/goleuadau wedi eu lleoli mewn mannau addas a chyfleus. Dylai cadeiriau bwyta a chadeiriau ymlacio fod ar gael.

3.6 Ystafelloedd Gwely

3.6.1 Addurno

Bydd asesu'r elfen yma yn cynnwys yr holl orchuddion waliau, gorffeniadau, lluniau, ayyb.

Un Seren

Décor o ansawdd elfennol allai ddangos peth ôl defnydd, ond yn dal o safon dderbyniol.

Dwy Seren

Safon décor eithaf da, ond efallai bydd rhai ardaloedd angen sylw.

Tair Seren

Décor o ansawdd da gyda dim ond ychydig o ôl defnydd. Gall fod yn ymarferol ond yn ffres o ran edrychiad ac mewn cyflwr da, gwaith llaw wedi ei wneud yn effeithiol ond heb orffeniad 'proffesiynol'.

Pedair Seren

Décor o safon dda iawn drwyddi draw. Gellir defnyddio lluniau/ffotograffau neu waith celf arall er mwyn cyfoethogi'r cyflwyniad. Dylid cynnal safonau uchel ym mhob ardal gyhoeddus. Ychydig iawn o farciau gweledol neu ddifrod, os o gwbl.

Pum Seren

Décor o ansawdd uchel gyda lliwiau wedi eu defnyddio'n ystyrion. Bydd y paent mewn cyflwr rhagorol, wedi ei baentio yn gyson a phroffesiynol.

3.6.2 Dodrefn, Celfi a Gosodiadau

Bydd asesu'r elfennau yma fel arfer yn cynnwys ansawdd a chyflwr holl ddodrefn yr ystafelloedd gwely, cadeiriau, loceri, silffoedd, llenni, gosodiadau/offer gwresogi a goleuo.

Un Seren

Yn debygol o weld bachau yn unig, ychydig o silffoedd ar gyfer storio. Efallai y bydd y celfi a'r gosodiadau yn dangos ôl defnydd, ond byddant yn dal mewn cyflwr defnyddiadwy. Bleindiau/llenni ayyb o ansawdd elfennol, o bosibl heb leinin neu ddim yn ffitio'n briodol. Gosodiadau golau o ansawdd elfennol. Bydd yr offer gwresogi yn ddiogel ac ymarferol ond efallai bydd marciau, rhwd neu ôl difrod ar eu gorffeniadau.

Dwy Seren

Celfi/gosodiadau mewn cyflwr eithaf da, dim ond ychydig o ôl defnydd. Efallai y bydd loceri, pan y'u darperir, yn unedau metel dull 'diwydiannol' gyda difrod/ôl defnydd yn amlwg. Efallai bod y celfi a ddarperir o ansawdd da ac mewn cyflwr da ond dim ond ychydig ohonynt a ddarperir.

Tair Seren

Efallai o ansawdd cymedrol. Llenni neu fleindiau o ansawdd da sydd yn ffitio'n briodol neu gaeadau mewn cyflwr da pan fo'n briodol. Darnau gosod a gosodiadau gwresogi o ansawdd da ond gydag ychydig o ôl defnydd.

Pedair Seren

Gall y loceri, pan y'u darperir, fod yn gabinetau metel/coed cymharol newydd mewn cyflwr da iawn, neu unedau pren o ansawdd uwch. Dodrefn wedi eu cydlynu'n dda. Gosodiadau gwresogi a goleuo o ansawdd uchel mewn cyflwr rhagorol. Digon o ofod hongian a storio.

Pum Seren

Celfi o safon uchel. Mae'r loceri, pan y'u darperir, yn debygol o fod yn unedau o safon uchel sydd yn cydlynu â chelfi eraill yn yr ystafell. Efallai bydd celfi achlysurol eraill yn gynwysedig e.e. cadeiriau ymlacio, byrddau ayyb. Dodrefn meddal o safon uchel wedi eu cydlynu. Llenni/bleindiau o ansawdd rhagorol, â leinin llawn yn aml o ddeunydd thermol/na ellir gweld trwyddynt. Bydd gosodiadau neu offer goleuo a gwresogi o ansawdd rhagorol tebyg ac mewn cyflwr rhagorol. Dim bylbiau neu offer diffygiol.

3.6.3 Lloriau

Bydd asesu'r elfen yma fel arfer yn cynnwys gorffeniadau lloriau a gorchuddion mewn ystafelloedd gwely.

Un Seren

Lloriau mewn cyflwr derbyniol yn gyffredinol, peth ôl defnydd i'w weld ond nid yn ormodol.

Dwy Seren

Lloriau mewn cyflwr eithaf da yn gyffredinol a/neu o ansawdd eithaf da. Gall fod o ansawdd da ond bellach yn dangos peth ôl defnydd. Dylai lloriau finyl neu lorau coed fod mewn cyflwr rhesymol.

Tair Seren

Lloriau o safon dda yn gyffredinol. Efallai y bydd rhai carpedi yn well na'i gilydd a byddant wedi eu gosod yn rhesymol. Bydd lloriau coed mewn cyflwr da gyda gorffeniad priodol (farnais, sêl ayyb).

Pedair Seren

Lloriau o safon dda iawn yn yr holl ystafelloedd gwely. Gall y carpedi fod o ansawdd 'contract' da iawn ond wedi eu gosod yn dda heb farciau amlwg nac ôl defnydd na difrod. Bydd lloriau coed wedi eu gorffen yn dda ac wedi eu cynnal yn dda.

Pum Seren

Lloriau o safon ragorol drwyddi draw, carpedi wedi eu gosod yn briodol, heb ddim arwyddion amlwg o ddefnydd neu unrhyw ddifrod, a gydag isgarped o ansawdd da. Efallai y byddant yn garpedi peil dolen o ansawdd uwch, lloriau laminad neu lorau coed gwreiddiol o ansawdd uchel ac mewn cyflwr da iawn, gyda sgwariau o rygiau neu garpedi ychwanegol wrth y gwely.

3.6.4 Goleuadau a Gwresogi

Bydd asesu'r elfennau yma fel arfer yn cynnwys lefel, dosbarthiad ac amrywiaeth y goleuadau a ddarperir, offer gwresogi a lefel darpariaeth/y gallu i reoli gwres.

Un Seren

Digon o olau yn y brif ystafell wely, efallai y bydd yn un golau crog yn unig. Dylai gwres digonol fod yn effeithiol ar gyfer yr ystafell gyfan yn ystod cyfnodau oerach. Dylai rhyw fath o wresogydd ar ei draed ei hun fod ar gael ar gyfer y misoedd oerach os nad oes gwresogyddion sefydlog yn yr ystafelloedd gwely.

Dwy Seren

Lefelau golau eithaf da, yn ddigonol at y rhan fwyaf o ddibenion ymarferol. Gorchudd priodol ar yr holl fylbiau, oni bai eu bod yn rhai addurniadol. Tiwbiau fflwroleuol gyda thryledwyr. Gwres ar gael, ond dim ond ar adegau penodol, megis gwresogyddion storio dros nos hŷn, neu wres canolog gydag amseru cyfyngedig. Gwresogyddion ar eu traed eu hunain ag ôl defnydd.

Tair Seren

Goleuo effeithiol ym mhob rhan o'r ystafell. Efallai yn cynnwys rhai goleuadau wrth y gwely. Lefel dda o wres sydd yn cynnal tymheredd cefndirol da. Effeithiol ac ar gael ar adegau priodol. Gallent fod yn wresogyddion storio mwy modern (h.y. effeithiol) ond heb gyfleuster hybu, neu system gwres canolog gwlyb gyda rheolaeth llif yn unig, a rheiddiaduron o faint a dosbarthiad minimol ar gyfer yr ystafell.

Pedair Seren

Darpariaeth ystyrion o oleuadau effeithiol iawn ym mhob rhan o'r ystafell, a dylai hynny gynnwys goleuadau ger y gwely i bob person mewn rhai ystafelloedd a rhai goleuadau achlysurol neu dasg pan fo'n briodol. Gwresogi sefydlog, yn gwbl adweithiol i anghenion y cwsmer. Offer gwresogi wedi eu lleoli'n dda.

Pum Seren

Goleuadau effeithiol o ansawdd uchel, yn rhoi golau digonol a phriodol y gellir ei reoli i bob rhan o'r ystafell e.e. goleuadau tasg wrth fasnau golchi dwylo, silffoedd a drychau, a goleuadau achlysurol pan fo'n briodol. Gall hefyd gynnwys golau nos watiâu isel ar wahân. Ffynhonnell gwres adweithiol a reolir â thermostat ym mhob ystafell. Ar gael 24 awr y dydd. e.e. gwres canolog gyda falfiau thermostatig unigol. Gall fod yn system wresogi/awyru neu dymheru aer cyfun.

3.6.5 Gwelyau a Dillad Gwelyau

Bydd asesu'r elfennau yma fel arfer yn cynnwys bynciau, gwelyau, platfformau Alpaidd, fframiau a matresi, duvet, gorchuddion duvet, blancedi, cynfasau, sachau cysgu, gobennydd a gorchuddion gobennydd.

Un Seren

Gwelyau a bynciau yn solet a chadarn, mynediad diogel i'r bynciau uchaf, gwelyau o ansawdd derbynol – rhai efallai ag ôl defnydd ond yn dal mewn cyflwr defnyddiadwy. Rhai marciau, ôl difrod neu ddefnydd ar orffeniadau fframiau gwelyau/bynciau. Gwelyau cul (2'6") yn dal yn cael eu defnyddio. Amrywiaeth digonol o ddillad gwelyau a chynfasau yn cynnwys blancedi/duvet a chynfasau neu sachau cysgu.

Dwy Seren

Gwelyau/bynciau neu blatfformau o safon eithaf da yn gyffredinol, rhai o steil hŷn/mwy elfennol gyda pheth ôl defnydd. Dillad gwelyau/sachau cysgu glân ac wedi eu cyflwyno'n dda. Graddfa tog duvet (pan y'u darperir) yn briodol i'r hinsawdd.

Tair Seren

Fframiau gwelyau/bync o ansawdd da a matres gadarn. Dillad gwely a chynfasau wedi eu cyflwyno'n dda ac mewn cyflwr da, dylai gobennydd fod yn sylweddol, a dylid defnyddio gwarchodwyr gobennydd a matresi o ansawdd da.

Pedair Seren

Yr holl welyau a bynciau i fod o faint llawn (h.y. lled o 3' neu 4'6") ac mewn cyflwr da iawn, fel arfer gyda matresi sbrings dyfnder llawn. Dillad gwely a gobennydd o ansawdd uchel ac mewn cyflwr da iawn. Efallai bod y dillad gwely yn cydweddu ag elfennau eraill o'r dodrefn meddal.

Pum Seren

Gwelyau neu fynciau maint llawn (h.y. 3' neu 4'6") o'r ansawdd gorau, gyda matresi sbrings mewnol dyfnder llawn. Dillad gwelyau/sachau cysgu sy'n cydweddu ac wedi eu golchi'n ddilychwin. Duvet o ansawdd uchel neu flancedi trymion gyda rhai wrth gefn.

3.6.6 Lle, Cyfforddusrwydd a Defnydd Rhwydd

Bydd yr asesiad yma fel arfer yn cynnwys ehangder, gosodiad, mynediad at unedau storio, rheolyddion golau a gwres, mynediad at socedi trydanol. Hefyd, bydd effaith (negyddol neu gadarnhaol) dodrefn arall, nenfydau ar oledff,

ystafelloedd cul neu o siâp chwithig a mynediad at welyau yn cael eu hystyried wrth asesu'r elfen yma.

Un Seren

Ystafelloedd gwely o faint digonol mewn perthynas â nifer y gwelyau. Ychydig iawn o le ar gyfer storio neu symud yn rhwydd. Efallai bod mynediad at ffenestri, rheolyddion gwres a goleuadau a/neu socedi trydanol yn gyfyngedig.

Dwy Seren

Safon eithaf da yn gyffredinol o ran maint a gosodiad ystafell. Efallai bod rhai ystafelloedd o safon uchel iawn ond eraill yn fwy cyfyngedig. Er y rhagorir efallai ar ofynion lleiafswm ehangder, efallai mai'r argraff o hyd fydd bod y nifer fwyaf posibl o welyau wedi cael eu rhoi yn yr ystafelloedd, a bod hynny yn effeithio ar gyfforddusrwydd gwesteion.

Tair Seren

Ystafelloedd gwely o faint da gyda digon o le ar gyfer symud yn rhwydd; mynediad da at ffenestri, rheolyddion goleuadau a gwres a socedi trydanol. Efallai bod rhai ystafelloedd gwely ychydig yn fach, ond wedi eu gosod yn dda. Rhai nenfydau ar oledf, ond nid dros y rhan fwyaf o arwynebedd y llawr. Efallai bod maint da iawn i'r ystafelloedd gwely, ond dim celfi ychwanegol.

Pedair Seren

Ystafelloedd o faint da iawn gyda digon o arwynebedd llawr rhydd a dim cyfyngu ar fynediad at ffenestri, socedi pŵer neu reolyddion gwresogi. Yn debygol o fod â rhai eitemau o gelfi ychwanegol sydd yn gwella cyfforddusrwydd ymwelwyr a'u defnydd o'r ystafell.

Pum Seren

Ystafelloedd eang, wedi eu gosod yn dda gyda phwyslais amlwg ar gyfforddusrwydd a hwylustod i westeion. Ar y safon uchaf un disgwylir y bydd rhai ystafelloedd gwely (os nad y cyfan) wedi eu dodrefnu'n dda, ac yn cynnwys er enghraifft loceri, gofod storio wedi ei drefnu'n dda, bwrdd ger y gwely a byrddau achlysurol a chadeiriau ymlacio.

3.7 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau

3.7.1 Addurno

Bydd asesu'r elfen yma fel arfer yn cynnwys yr holl orchuddion waliau, gorffeniadau, lluniau, ayyb ar waliau a nenfydau pob ystafell ymolchi/cawod a'r toiledau.

Un Seren

Décor mewn cyflwr derbyniol, ychydig o ddécor wedi heneiddio neu wedi ei ddifrodi gyda marciau neu olion i'w gweld, ychydig o baent wedi caenu, ond ar y cyfan mewn cyflwr da.

Dwy Seren

Décor eithaf da o ran ansawdd a chyflwr, ond efallai yn dangos ôl defnydd.

Tair Seren

Décor o ansawdd da gyda dim ond ychydig o ôl defnydd. Efallai ei fod yn ymarferol ond yn edrych yn ffres ac mewn cyflwr da. Efallai y gwelir gwaith llaw wedi ei wneud yn effeithiol ond heb orffeniad 'proffesiynol'. Bydd y gwaith teilio yn dda yn gyffredinol ond efalla na fydd yn ddilyschwin.

Pedair Seren

Décor o safon dda iawn drwyddi draw. Gall fod yn orffeniad cymharol syml e.e. emwlsiwn neu baent ystafell ymolchi ond wedi ei ddefnyddio a'i gynnal yn rhagorol. Efallai bod y gwaith teilio yn helaeth ac o safon dda iawn yn gyffredinol. Y safon yn gyson ym mhob un o ardaloedd yr ystafelloedd ymolchi. Ychydig iawn o farciau gweledol neu ddifrod, os o gwbl.

Pum Seren

Ansawdd a chyflwr popeth yn rhagorol. Efallai eu bod â leinin llawn gyda phaneli waliau ar yr ystafell ymolchi neu gyfuniad o orffeniadau mwy traddodiadol. Teils deniadol (a growt) mewn cyflwr rhagorol.

3.7.2 Cyfleusterau Glanweithiol a Gosodiadau

Bydd asesiad o'r elfen hon fel arfer yn cynnwys yr holl unedau cawod, cyfarpar glanweithiol, gwaelodion cawodydd, ciwbiclau cawodydd, llenni/drysau cawodydd, silffoedd, drychau, llenni/bleindiau ystafelloedd, bachau dillad, rheiliau tyweli, dysglau sebon, biniau gwastraff, basnau ymolchi a thapiau, gosodiadau ac offer golau a gwresogi.

Un Seren

Efallai y bydd y darnau gosod a gosodiadau yn hen, ond byddant yn dal mewn cyflwr defnyddiadwy. Dylai cyflenwad dŵr poeth fod ar gael bob amser o fewn rheswm.

Dwy Seren

Darnau gosod a gosodiadau wedi eu cyflwyno i safon eithaf da, efallai y defnyddir basnau golchi dwylo o faint llai, pennau a gwaelodion cawodydd o ansawdd elfennol. Dylai'r holl gosodiadau fod yn gweithio ac mewn cyflwr

da, yn hawdd eu defnyddio ac yn adweithiol. Dylai digon o ddŵr poeth fod ar gael bob amser. Efallai y bydd darnau gosod a gosodiadau gwresogi a golau yn dangos ôl defnydd.

Tair Seren

Cawodydd effeithlon gyda thymheredd wedi ei osod yn briodol neu reolyddion effeithiol, basn ymolchi maint safonol mewn cyflwr da. Gwaelodion cawodydd seramig maint/ansawdd safonol neu deils llawr cawod gwrth-lithro. Offer gwresogi a goleuo mewn cyflwr da. Llenni cawod yn edrych yn ffres ac o ansawdd da neu ddrysau cawod effeithiol.

Pedair Seren

Darnau gosod a gosodiadau o ansawdd da iawn. Cawodydd gyda llif pwerus y gellir eu rheoli'n gyfan gwbl. Llenni cawodydd o ansawdd da ac mewn cyflwr da, neu ddrysau cawod o ansawdd da. Dolenni/rheilau tyweli a bachau o ansawdd uchel heb ôl defnydd arnynt.

Pum Seren

Bydd yr ystafelloedd ymolchi wedi eu cydlynu'n dda ac wedi eu dylunio'n ystyriol. Dylai'r cyfleuster greu argraff ragorol yn gyffredinol, gyda chyfarpar glanweithiol yn cydweddu.

3.7.3 Lloriau

Bydd asesu'r agwedd hon fel arfer yn cynnwys gorffeniadau a gorchuddion lloriau ym mhob ystafell ymolchi/cawod a thoiledau.

Un Seren

Lloriau ymarferol, domestig, gwrth-lithro mewn cyflwr derbyniol. Dylai'r holl lloriau fod wedi eu paratoi a'u selio'n briodol.

Dwy Seren

Safon eithaf da yn gyffredinol. Gall fod o ansawdd cymedrol ond mewn cyflwr da iawn. Efallai bod y lloriau yn dangos ychydig o ôl defnydd ond y cyfan yn solet a diogel. Efallai ei fod o ansawdd uwch, ond heb ei osod yn dda neu'n dangos ychydig o ôl defnydd erbyn hyn.

Tair Seren

Lloriau o ansawdd safonol ac mewn cyflwr da. Ymylon a semau wedi eu selio'n dda.

Pedair Seren

Lloriau ystafell ymolchi o ansawdd uchel, wedi eu gosod yn dda ac mewn cyflwr da iawn. Efallai o ansawdd rhagorol ond efallai ddim mewn cyflwr dilychwin mwyach.

Pum Seren

Llawr gwrth-lithro o ansawdd contract neu deils llawr o ansawdd uchel, wedi eu gosod yn broffesiynol ac mewn cyflwr rhagorol.

3.7.4 Goleuo, Gwresogi ac Awyru

Bydd asesu'r elfennau yma fel arfer yn cynnwys lefel a dosbarthiad y goleuadau a ddarperir, offer gwresogi a lefel darpariaeth/y gallu i reoli gwres, effeithlonrwydd a chyflwr systemau awyru/echdynnu.

Un Seren

Digon o watiâu yn cynnig lefelau goleuo derbyniol. Awyru ar gael e.e. efallai mai dim ond ffenestr sydd yn agor yw hynny. Ychydig iawn o ddarpariaeth gwresogi, neu ddim o gwbl. Golau canol, ond ychydig iawn neu ddim golau effeithiol wrth y basn ymolchi neu'r drych. Peth awyru mecanyddol cyfyngedig fel arfer.

Dwy Seren

Golau canol ond ychydig iawn neu ddim golau effeithiol wrth y basn golchi dwylo neu'r drych. Peth awyru mecanyddol cyfyngedig fel arfer. Ychydig o wres ar gael yn yr ystafelloedd ymolchi.

Tair Seren

Goleuo ac awyru effeithiol ym mhob ardal, yn aml wedi ei ategu gan oleuadau/socedi eillio. Awyru mecanyddol effeithiol sydd yn briodol i faint y cyfleusterau. Gwresogi sydd yn cynnal tymheredd cefndirol da ac sydd yn effeithiol ac ar gael ar adegau priodol.

Pedair Seren

Goleuadau wedi eu lleoli'n dda ac yn effeithiol at bob diben, efallai y gwelir goleuadau wedi eu gosod ar amseryddion. Bydd y systemau awyru yn gwbl effeithiol ac yn gallu cynnal amgylchedd ffres yn ystod cyfnodau o ddefnydd trwm. Darpariaeth gwresogi cwbl effeithiol ac y gellir ei reoli'n llawn e.e. gwres canolog gyda falfiau thermostatig unigol.

Pum Seren

Goleuadau o ansawdd uchel gyda golau penodol ym mhob cawod a chiwbicl tolied, goleuadau a socedi eillio. Gall y system awyru ymgorffori echdynwyr unigol uwch ben pob ciwbicl cawod, efallai wedi eu cysylltu i synwryddion lleithder/symudiad, ffan rheoli o bell a/neu ddyfeisiau amseru. Gwres cwbl effeithiol y gellir ei reoli ac sydd ar gael 24 awr y dydd.

3.7.5 Lle, Cyfforddusrwydd a Defnydd Rhwydd

Bydd asesu'r elfen hon fel arfer yn cynnwys ehangder, cynllun, hwylustod defnyddio a lefel preifatrwydd.

Un Seren

Cyfleusterau o faint digonol ond efallai braidd yn gyfyngedig mewn mannau. Rhaid rhoi ystyriaeth i breifatrwydd gwesteion wrth iddynt newid neu sychu.

Dwy Seren

Ehangder eithaf da yn gyffredinol.

Tair Seren

Ystafelloedd ymolchi o faint da, ciwbiclau cawodydd o faint da, digon o le i newid, darnau gosod a gosodiadau wedi eu gosod yn dda ac yn hwylus i'w defnyddio.

Pedair Seren

Safon dda iawn yn gyffredinol.

Pum Seren

Cyfleusterau o faint sylweddol ac wedi eu cynllunio'n dda. Bydd y ciwbiclau cawod o faint a chynllun sydd yn caniatáu preifatrwydd ar gyfer newid yn y ciwbicl mewn ardal sych ar wahân i waelod y gawod. Dylid cael digon o fwllch rhwng basnau ymolchi er mwyn caniatáu hwylustod a chyfforddusrwydd yn ystod cyfnodau prysur.

3.8 Cegin Hunan-Ddarpar

3.8.1 Décor a Lloriau

Bydd yr asesiad yn cynnwys yr holl orchuddion waliau, gorffeniadau a gorchuddion lloriau.

Un Seren

Décor o safon dderbyniol, ychydig o ôl defnydd i'w weld h.y. o gwmpas yr ardaloedd coginio, ond o safon ddigonol yn gyffredinol. Efallai bydd ôl defnydd ar y lloriau mewn ardaloedd prysur ond fel arall mewn cyflwr derbyniol.

Dwy Seren

Décor a lloriau o safon eithaf da yn gyffredinol, efallai ychydig o ôl defnydd ond ddim yn sylweddol.

Tair Seren

Décor o ansawdd da gyda dim ond ychydig o ôl defnydd. Efallai ei fod yn ymarferol ond yn edrych yn ffres ac mewn cyflwr da. Teils, growt a sêl yn lân ac mewn cyflwr da. Lloriau finyl ansawdd domestig neu deils llawr, a'r cyfan mewn cyflwr da.

Pedair Seren

Décor ym mhob rhan o'r gegin o safon dda iawn gyda dim ond mân ddiffygion yn tynnu oddi ar safon sydd fel arall yn rhagorol. Lloriau yn debygol o fod o ansawdd domestig da iawn, heb unrhyw farciau neu ddifrod, ac wedi eu gosod yn broffesiynol.

Pum Seren

Décor o ansawdd uchel ac ystyriaeth wedi ei roi i ymarferoldeb ac argraff weledol. Yn debygol o gynnwys rhai elfennau o ansawdd masnachol megis cefnfyrdau dur gwrthstaen wedi eu gosod neu ddefnyddio bordau waliau o ansawdd priodol. Lloriau o safon rhagorol drwyddi draw. Lloriau finyl gwrth-lithro ansawdd contract trwm efallai.

3.8.2 Goleuo, Gwresogi ac Awyru

Bydd asesu'r elfennau yma fel arfer yn cynnwys lefel a dosbarthiad y goleuadau a ddarperir, lefel a'r gallu i reoli'r ddarpariaeth gwresogi, effeithlonrwydd a chyflwr systemau awyru ac echdynnu.

Un Seren

Digon o olau yn yr holl brif ardaloedd, dylid cael gorchuddion ar diwbiau fflwroleuol sengl moel. Dim awyru mecanyddol ar gael e.e. efallai mai dim ond ffenestr sydd yn agor yw hynny. Ychydig iawn o ddarpariaeth gwresogi, neu ddim o gwbl.

Dwy Seren

Digon o watiau, ond efallai bod hynny yn golygu bod rhai ardaloedd gweithio heb eu goleuo'n effeithiol. Dylid gosod tryledwyr ar diwbiau fflwroleuol. Dim awyru mecanyddol neu awyru mecanyddol sydd ddim yn effeithiol iawn.

Tair Seren

Yr holl ardaloedd gwaith wedi eu goleuo'n rhesymol dda. Awyru effeithiol, fel arfer drwy ffan echdynnu ac agor ffenestri. Lefelau gwresogi digonol.

Pedair Seren

Goleuo effeithiol ym mhob rhan o'r ystafell. Dylai ceginau fod wedi eu hawyru'n dda; fel arfer bydd gan boptai lwfrai echdynnu a goleuadau integredig. Gwres wedi ei reoli gan thermostat.

Pum Seren

Goleuo o safon uchel, golau 'tasg' heb gysgod uwch ben pob wyneb gweithio, pentanau a phoptai (e.e. goleuadau o dan unedau). System awyru ragorol, ceginau mwy yn debygol o gael systemau echdynnu masnachol.

3.8.3 Celfi a Gosodiadau

Bydd asesiad o'r elfen hon fel arfer yn cynnwys holl gelfi'r gegin, unedau wedi eu gosod, silffoedd, storio sych, byrddau ayyb gosodiadau ac offer golau a gwresogi, llenni neu fleindiau.

Un Seren

Efallai y bydd y celfi a'r gosodiadau yn dangos peth ôl defnydd, ond byddant yn dal mewn cyflwr defnyddiadwy. Gallent fod yn silffoedd elfennol agored gyda byrddau gwaith uwch eu pennau neu unedau domestig. Efallai bod wynebau byrddau gwaith wedi eu difrodi neu wedi treulio mewn manau.

Dwy Seren

Dodrefn y gegin yn gyffredinol o safon eithaf da. Efallai eu bod yn unedau gosod domestig o ansawdd safonol sydd ag ychydig o ôl defnydd ac oed.

Tair Seren

Dodrefn o safon dda, efallai o ansawdd domestig ond mewn cyflwr da gyda dim ond ychydig o ôl defnydd. Efallai eu bod yn waith llaw, ond mae hynny wedi cael ei wneud i safon da iawn. Cypyrddau, droriau a thu mewn i silffoedd mewn cyflwr da, gyda dim ond mân ddifrod neu draul.

Pedair Seren

Safon da iawn drwyddi draw sydd yn debygol o gael ei gynrychioli gan unedau gosod domestig o ansawdd safonol, a'r cyfan mewn cyflwr rhagorol. Dim ond ychydig iawn o arwyddion amlwg o draul neu ddifrod, os o gwbl.

Pum Seren

Celfi a dodrefn o ansawdd uchel, o safon ragorol. Efallai bod gan yr unedau ddrysau, neu efallai ddim. Gall ceginau o'r safon yma ymgorffori wynebau gwaith/paratoi bwyd neu silffoedd dur gwrth-staen.

3.8.4 Poptai ac Offer Trydanol

Bydd asesu'r elfennau yma fel arfer yn cynnwys offer coginio (yn cynnwys microdonau, griliau, pentanau a phoptai confensiynol) a nwyddau gwyn (yn cynnwys oergell, rhewgell, tegell, tostiwr, boeler dŵr). Bydd ansawdd ac amrywiaeth hefyd yn cael ei ystyried.

Un Seren

Offer wedi cael llawer o ddefnydd, ond yn ddefnyddiadwy ac mewn cyflwr diogel. Amrywiaeth elfennol o offer e.e. gofod oergell yn gyfyngedig iawn mewn perthynas â nifer y

gwesteion. Poptai a phentanau wedi eu gosod yn briodol ac yn ddiogel i'w defnyddio, ond efallai yn dangos ychydig o ôl defnydd.

Dwy Seren

Offer o safon eithaf da yn gyffredinol, allai adlewyrchu amrywiaeth sylweddol o ran ansawdd/cyflwr gwahanol eitemau. Tebygol o fod yn offer o ansawdd domestig gydag ychydig o ôl defnydd neu ddifrod yn amlwg.

Tair Seren

Efallai bydd yr offer yn dangos ychydig o ôl defnydd ond ni fydd yn sylweddol, ac mewn cyflwr da yn gyffredinol. Y tu mewn i oergelloedd mewn cyflwr da, seliau yn gyfan ac yn effeithiol. Poptai a phentanau yn aml o ansawdd domestig safonol ond mewn cyflwr da iawn. Efallai ei fod yn offer arlwygo ail-law/wedi ei adnewyddu, ac mewn cyflwr da.

Pedair Seren

Safon da iawn yn gyffredinol allai fel arall fod wedi bod yn safon rhagorol oni bai bod yr amrywiaeth o offer yn gyfyngedig neu bod eitemau unigol yn amlwg o safon is. Bydd gofod oergell yn sylweddol mewn perthynas â nifer y gwesteion.

Pum Seren

Poptai a phentanau maint llawn o ansawdd domestig uchel neu, yn aml, o ansawdd arlwygo masnachol, ac mewn cyflwr rhagorol. Amrywiaeth eang o offer trydanol o ansawdd uchel, a'r cyfan mewn cyflwr rhagorol. Gallai gynnwys eitemau 'moeth' megis blendwyr, peiriannau coffi ayyb. Bydd rhewgell yn cael ei darparu fel arfer. Yn debygol o gynnwys (yn arbennig mewn eiddo mwy) o leiaf ychydig o offer o ansawdd masnachol e.e. boeleri dŵr neu dostiwr.

3.8.5 Cegin a Chyfarpar Bwyta

Bydd asesu'r eitemau yma fel arfer yn cynnwys padelli, sosbenni, offer coginio, cytleri, llestri, gwydrau.

Un Seren

Llestri ac offer cymysg iawn, a rhai yn dangos ôl defnydd. Offer alwminiwm yn ocsideiddio, rhai handlenni wedi llosgi neu wedi gwisgo mewn ffordd arall.

Dwy Seren

Dim difrod neu ôl defnydd sylweddol yn gyffredinol. Argymhellir cynnwys rhai o faint arlwygo swmpus ar gyfer archebiadau grŵp.

Tair Seren

Offer a llestri mewn cyflwr da ac yn galluogi i osod byrddau yn llawn a phriodol.

Pedair Seren

Amrywiaeth dda iawn o lestri, cytleri a gwydrau ar gael. Amrywiaeth lawn o offer, a'r cyfan mewn cyflwr da.

Pum Seren

Amrywiaeth eang o offer, llestri a gwydrau, a'r cyfan mewn cyflwr rhagorol, fel arfer bydd cymaint mwy ar gael na'r hyn sy'n ofynnol fel lleiafswm. Efallai y bydd eitemau ychwanegol yn cael eu darparu.

3.8.6 Lle, Cyfforddusrwydd a Defnydd Rhwydd

Bydd asesu'r elfen yma fel arfer yn ystyried ehangder, cynllun dyluniad ergonomig, lefel y ddarpariaeth a gofod mewn perthynas â lefel y defnydd.

Un Seren

Gofod gweithio a storio digonol. Efallai yn eithaf cyfyngedig mewn perthynas â lefel defnydd arferol neu o ddyluniad ergonomig nodedig o wael.

Dwy Seren

Cegin eithaf da o ran maint a chynllun, ond efallai ychydig yn gyfyng yn ystod cyfnodau prysur. Wynebaw gwaith a pharatoi bwyd cyfleus digonol, ond ddim yn sylweddol.

Tair Seren

Digon o le i baratoi bwyd a choginio, yn briodol ar gyfer nifer y gwesteion a lefel defnydd arferol. Digon o socedi pŵer wedi eu lleoli'n ymarferol. Dylai gofod storio bwyd unigol fod ar gael ar gyfer cyfran sylweddol o uchafswm nifer y gwesteion.

Pedair Seren

Cegin ac ardaloedd paratoi bwyd da iawn o ran maint a chynllun. Efallai nad yw mor sylweddol o ran lle a maint ar gyfer lefel y defnydd yn ystod cyfnodau prysur nag un o safon ragorol, ond nid i'r graddau y bydd disgwyl i hynny achosi unrhyw anghyfleuster mawr o fewn rheswm.

Pum Seren

Dylai'r cegin gael dyluniad ergonomig gyda digon o le i'r holl westeion symud yn rhwydd a gweithio. Argymhellir ardaloedd paratoi bwyd ar wahân mewn ceginau mwy. Ni fyddid yn disgwyl i ofod cegin ar y safon yma gael ei gyfaddawdu gan ddefnydd deul fel ardal fwyta hefyd.

3.9 Cyfleusterau Eraill

Ac eithrio ystafell sychu, efallai y bydd cyfleusterau ychwanegol yn cael eu darparu neu ddim, ond pan fyddant, byddant yn rhan o'r asesiad yma.

3.9.1 Ystafelloedd Golchi a Sychu Dillad

Bydd asesiad o'r cyfleusterau yma fel arfer yn ystyried ansawdd cyfleuster ac offer, cynnal a chadw a glendid.

Un Seren

Hen offer, naill ai'n fasnachol neu'n ddomestig, yn dangos ychydig o ôl defnydd. Dim digon o ofod hongian a storio ar gyfer yr holl ddefnyddwyr posibl. Ystafell fwyta gyda dim ond offer lled effeithiol ar gyfer sicrhau bod offer a dillad yn cael eu sychu. Efallai bod y safon yma hefyd yn adlewyrchu bod cyfleuster, allai fod yn un da fel arall, yn cael ei ddefnyddio fel ardal storio ar draul ei ddiben priodol, neu gyfleuster sydd yn dda ond yn gyfyngedig o ran maint mewn perthynas â'i ddefnydd posibl.

Dwy Seren

Cyfleuster glân wedi ei gyflwyno'n dda, efallai yn eithaf elfennol neu gyfyngedig o ran ei ddarpariaeth, ond o safon eithaf da yn gyffredinol.

Tair Seren

Cyfleuster o faint da mewn perthynas â nifer y gwesteion. Efallai bod yr offer golchi dillad domestig neu fasnachol safonol yn dangos ychydig o ôl defnydd, ond mewn cyflwr da yn gyffredinol. Ystafell sychu yn cynnwys cyfleusterau hongian/rheilen a rac esgidiau. Bydd yr ystafell sychu yn cynnwys offer cwbl effeithiol y gellir ei reoli er mwyn sicrhau y gellir sychu dillad ac offer mewn amser rhesymol (e.e. dros nos) o dan amgylchiadau arferol.

Pedair Seren

Bydd y cyfleusterau golchi a sychu dillad wedi eu dylunio'n dda, yn eang ac yn cynnwys offer o safon dda. Mewn perthynas â golchi dillad, bydd hynny fel arfer yn golygu defnyddio peirannau talu masnachol neu beiriannau tocyn. Dylai fod yna ddigon o offer er mwyn sicrhau y gellir bodloni gofynion arferol gwesteion o ran defnydd. Bydd yr ystafell sychu yn cynnwys cyfleusterau sychu cynhwysfawr a systemau sychu effeithiol iawn. Bydd hynny yn amlach na pheidio yn cael ei gyflawni drwy gyfuniad o ddadleithyddion, gwres cefndirol ac awyru. Bydd

y ddau gyfleuster mewn cyflwr da gyda safonau glendid rhagorol.

Pum Seren

Bydd safon ragorol yn cael ei arddangos yn amlach na pheidio yn yr ardaloedd yma drwy ddarparu amrywiaeth eang o offer o ansawdd uchel, sychwyr troi, haearn smwddio, bwrdd smwddio, basgedi dillad ayyb.

3.9.2 Cyfleusterau Hamdden/Ychwanegol

Bydd asesu'r elfen yma fel arfer yn cynnwys ansawdd a chyflwr unrhyw gyfleusterau hamdden ychwanegol a ddarperir i westeion eu defnyddio megis bwrdd pŵl, peiriannau gemau, mynediad i'r rhynggrwyd, tennis bwrdd, llyfrgell, siop, ystafell gemau, cyfleusterau hamdden, darpariaeth storio offer arbenigol e.e. canŵs/beiciau, offer dringo.

4.0 Cod Ymddygiad

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr ddilyn a chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad canlynol:

- Cynnal safonau gofal gwesteion, glendid a gwasanaeth sy'n briodol i'r math o sefydliad.
- Disgrifio'n gywir mewn unrhyw hysbyseb, llawlyfr neu unrhyw gyfrwng printiedig neu electronig arall, y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir.
- Egluro i'r ymwelwyr beth yn union sy'n gynwysedig ym mhrys y llety, yn cynnwys trethi ac unrhyw ordaliadau eraill. Dylid hefyd egluro manylion am gostau unrhyw wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol.
- Datganiad polisi clir ar ganslo i'r gwesteion ar adeg archebu h.y. dros y ffôn, ffacs, e-bost, yn ogystal â rhoi gwybodaeth mewn fformat printiedig.
- Cadw at y prisiau a ddyfynnwyd ar adeg archebu am y llety a gwasanaethau eraill, a pheidio â chodi mwy na hynny.
- Hysbysu ymwelwyr ar adeg archebu ac ar ôl hynny am unrhyw newid, os bydd y llety yn cael ei gynnig mewn atodiad ar wahân neu gyffelyb a dangos lleoliad y cyfryw lety ac unrhyw wahaniaeth mewn cyfforddusrwydd a/neu amwynderau â'r hyn a geir yn y prif adeilad.
- Rhoi manylion am y taliad sy'n ddyledus a derbynneb, os oes angen, i bob ymwelydd ar gais. Delio'n brydlon a chwrtais â phob ymholiad, cais, archebiadau a chyfathrebiadau gan ymwelwyr.

- Sicrhau bod gweithdrefn delio â chwynion wedi ei sefydlu ac yr ymchwilir i gwynion a dderbynnir yn brydlon a chwrtais a bod yr hyn sy'n deillio o hynny yn cael ei gyfathrebu i'r ymwelydd.
- Rhoi sylw dyledus i ofynion ymwelwyr ag anabledau ac anghenion arbennig, a chynnig darpariaeth addas pan fo'n gymwys.
- Darparu yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus neu drefniant cyffelyb a chydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cynllunio, diogelwch ac arall sydd mewn grym yn statudol.
- Caniatáu mynediad rhesymol i gynrychiolydd Croeso Cymru i'r sefydliad, ar gais, er mwyn cadarnhau y cydymffurfir yn llawn â'r Cod Ymddygiad.

5.0 Amodau Cyfranogiad

Mae'n ofynnol i bob sefydliad sy'n cyfranogi yng nghynlluniau graddio Croeso Cymru i:

- Fodloni neu ragori ar ofynion lefel mynediad sylfaenol Croeso Cymru o ran Cyfleusterau, Gwasanaethau ac Ansawdd.
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad Croeso Cymru.
- Cael eu hasesu, ac yn achos cwynion, gan gynrychiolydd Croeso Cymru.
- Talu ffi cyfranogi blynyddol.
- Darparu datganiad mynediad/canllawiau hygyrchedd.

6.0 Newid Perchnogaeth

Pan fo sefydliad yn cael ei werthu, ni ellir trosglwyddo'r radd sy'n bodoli i'r perchennog newydd. Mae'n ofynnol i'r perchennog newydd wneud cais i gyfranogi yng nghynllun graddio sêr Croeso Cymru.

7.0 Arwyddion

Pan fo sefydliad, am ba bynnag reswm, yn peidio â chyfranogi yng nghynllun graddio Croeso Cymru, mae'n rhaid tynnu'r holl arwyddion a'r deunydd print i lawr yn syth.

Dylai'r defnydd o radd sêr gael ei ategu bob amser â logo priodol Croeso Cymru.

8.0 Beth i'w Wneud os Ydych yn Anghytuno â'r Radd Sêr a Roddwyd

Os ydych yn teimlo bod gennych reswm i anghytuno â'r radd sêr a roddwyd i'ch eiddo, neu eich bod yn anghytuno â rhai agweddau

o adroddiad yr Aseswr Ansawdd, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl ar ôl i chi dderbyn eich adroddiad ysgrifenedig.

Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar 0845 0108020 neu ein e-bostio ar quality.tourism@llyw.cymru a byddwn yn ymdrechu i geisio datrys eich pryderon.

Neu, gallwch ysgrifennu atom at:
Adran Sicrwydd Ansawdd, Croeso Cymru,
Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UR.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UR

Ymholiadau Ffôn: 0845 010 8020
Ffacs: 0300 062 2081
E-bost: quality.tourism@llyw.cymru